

ECO'R WYDDFA

RHIF 313

GORFFENNAF 2004

PRIS 40c

Y rhifyn hwn:


- Miss Corona 1951 (Yr ail bennod) – tud 7
- Gefeillio Llanberis a Morbegno – tud 18
- Cronfa Codi Cwt Newydd i Fand Llanrug – tud 21
- Atgofion Dyddiau Ysgol – tud 24

Cystadlu mewn Treialthlon... ...yn 9 oed

SULGWYN, bu Natasha Lowe-Sellers, Capel Fachwen, yn cymryd rhan mewn treialthlon arbennig. Roedd hi wedi penderfynu codi arian i CLIC – cymdeithas sy'n helpu plant sy'n dioddef o bob math o ganser. Ond roedd yn rhaid iddi gyflawni'r gamp cyn cyrraedd ei phen-blwydd yn naw oed!

Felly, gyda diwrnod o orffwys rhwng y gweithgareddau, fe roddodd ymdrech arbennig ar waith. Nofiodd 100 hyd y pwll nofio (sef milltir a chwarter) mewn 50 munud! Yna, ymhen deuddydd, bu'n reidio'i beic am 21 milltir, ac fe wnaeth hynny mewn dwy awr a hanner. I goroni'r tair camp, fe gerddodd i fyny ac i lawr Yr Wyddfa mewn 4 awr.


Dyna i chi gamp – a hithau dim ond yn 8 oed. A wyddoch chi be? Roedd ei brawd bach Oisín, sydd yn 7 oed, a Mam a Dad yn cadw cwmni iddi. Ond yr hyn sy'n wirioneddol syfrdanol yw fod Natasha eisoes wedi codi dros £1,000 mewn nawdd tuag at yr achos teilwng yma. Rydym fel ardal yn ymfalchïo yn ei champ a diolch i ti Natasha am helpu plant bach eraill.



LLWYDDIANT YSGOL BRYNREFAIL



Pêl-rwyd Bl.7. Dyma'r tîm a aeth trwy'r tymor heb golli gêm. Da iawn genod, datbwoch ati.



Guto Llywelyn a Kyle Cooper yn amlwg wedi eu plesio!

ECO'R WYDDFA

**RHIF 313
GORFFENNAF 2004**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631

Bryn Jones (01286) 674405

Llinos Jones (01286) 871820

Richard Thomas (01286) 871954

Sion Williams (01286) 871858

Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Olwen Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, AWST 16

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, AWST 26

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Medi	16 Awst	26 Awst	Dinorwig	Marian Jones	870292

33 Maes-y-Llyn
PWLLHELI

Annwyl Olygydd,
Yr oedd darllen yr erthygl 'Hen
Deulu Gors, Clwt-y-Bont' yn
rhifyn Mai o'r *Eco* o ddiddordeb
neilltuol i mi, a chael llun o'r
Gors yn fonws o'r gorffennol
pell yn hanes fy niweddar fam.
A dyna erthygl ychwanegol eto
yn rhifyn Mehefin gan Jack
Williams, un arall y bu ei deulu
yn byw yno.

Aeth hi yn rhy ddiweddar
bron pan y bu i mi ddechrau
olrhain teulu ochr fy mam.
Gyda'r ychydig wybodaeth oedd
gennyf, dim ond llythyr a
anfonwyd i fy mam, dyddiedig
dydd Iau, 1935, Gors Myrddin,
Clwt-y-Bont, Deiniolen, a'i
lofnodi Maggie a J. Joseph Jones
arno.

Ymwelais â Deiniolen rhyw
ddeng mlynedd yn ôl gyda'r
bwriad o gael gweld beth oedd
hanes yr hen dŷ 'Cors
Murddyn', yn garedig iawn
daeth yna wr a welais yn eistedd
ar fainc ym mhen uchaf y
pentref gyda mi i'r union fan, lle
yr arweiniodd fi dros glawdd a
phentwr o gerrig yn aros lle
safai y tŷ gynt. Adroddais hanes
fy ymweliad wrth fy mam, a
oedd ers peth amser bellach
mewn Cartref Preswyl,
gwerthfawrogodd hithau
ffrwyth fy ymchwil a fu yn
dywyll a diffwrth cyn hynny.

Fel un sydd yn ymwneud â
hanes Cymry America buaswn
yn ei theimlo hi'n fraint pe
byddwn o'r un llinach o'r
gangen a aeth i'r Amerig, sef
Mary, priod y Parch J. Rhiwen
Williams, Pennsylvania. Ond fy
unig gysylltiad i oedd bod
Maggie Jones (1873-1936), gynt
o Buarthau, Capel Uchaf,
Clynnog, yn briod â John Jones,
yn byw yn 'Gors Myrddin' pan y
bu hi farw. Efallai iddi drigo
yno am yr oll o'r 21 mlynedd y
bu hi'n byw yn yr ardal, ni wn.
Bu J. Joseph Jones farw yn 1942,
yr oedd yn hanner brawd i'r
diweddar Barch R.O. Hughes,
MA Harlech. Gwn i J.J. Jones
ailbriodi, bu Jane ei ail wraig
farw Gorffennaf 1970, yn 79
mlwydd oed.

Yr hyn yr hoffwn i ei wybod
yw a oedd modryb fy mam,
Margaret (Maggie Williams)
Jones yn cartrefu yng Ngors
Murddyn cyn iddi briodi ynteu
ai cartref John Joseph Jones
oedd y Gors hwnnw cyn iddo ef
briodi?

Buaswn yn falch o glywed a
oes unrhyw wybodaeth am
Maggie Jones gan unrhyw un
o'r trigolion.

W. ARVON ROBERTS
(01758) 614748

33 Maes-y-Llyn
PWLLHELI

Annwyl Olygydd,
Darllenais unwaith eto un
erthygl yn rhagor yn yr *Eco* yn
cyfeirio at Gymry'r America, sef
'Ardal y Susquehanna Slate',
difyr iawn. Efallai fod yna eraill
fel fy hunan ymhlith darllenwyr
eich newyddiadur sydd â
diddordeb mewn ysgrifau o'r
fath, rhai yn ymwneud â'r rhai
hynny a ymfudodd o Gymru i'r
Taleithiau.

Cyfeiria awdur anhysbys yr
erthygl at ei ymweliad ef neu hi
â Delta, Pennsylvania, ychydig
filltiroedd oddi wrth yr Afon
Susquehanna, sydd gyda llaw yn
chwaer bentref i Cardiff, yn
nhalaith Maryland. Enw cyntaf
a roddwyd ar Delta ydoedd
West Bangor. Fel y dywedodd
awdur yr erthygl, yr oedd yr
ardal honno yn un amlwg am ei
chwareli llechi. Ac yr oedd y
chwarel gyntaf a agorwyd yn
Peach Bottom, yn yr un ardal yn
1835, yn wir wedi cael
cyhoeddusrwydd yn
Arddangosfa Crystal Palace,
Llundain yn 1850, fel 'y llechen
orau yn y byd'.

Yr oedd y llong *City of
Glasgow* y cyfeiriwyd ati yn yr

un erthygl (rhifyn Mehefin o'r
Eco) yn llong haearn, 1,610
tunnell, 227 troedfedd wrth 34
troedfedd. Adeiladwyd hi yn
1850 gan Tod a McGregor,
Glasgow. Yr oedd lle arni i 52 yn
y dosbarth cyntaf, a 85 yn yr ail
ddosbarth. Aeth ar ei mordaith
morwynol ar Ebrill 15, 1850,
pan adawodd Glasgow am Efrog
Newydd. Prynydd y llong gan
Inman Line yn yr un flwyddyn,
a bu'n gwneud teithiau o
Lerpwl i Philadelphia o Ragfyr
11, 1850. Yn 1852 gwnaed
atgyweiriadau iddi fedru cario
130 mewn cabanau, a 400 yn y
trydydd dosbarth. Hwylodd o
Lerpwl ar Ionawr 1, 1854 (yn ôl
North Atlantic Seaway, gan N.P.
Bonson, cyfrol 1, tud.240);
Mawrth 1, medd 'Norway
Heritage'; Mehefin 1 yn ôl
awdur yr erthygl yn *Eco*'r
Wyddfa. Diflannodd yn llong
ynghyd â 480 o deithwyr a chriw
oedd ar ei bwrdd, rhywle cyn
cyrraedd Efrog newydd.

W. ARVON ROBERTS

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch
cadw'n gynnes ac yn glyd!

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis


Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

GWYLLTIO O WELD EI HUNAN



Dychwelyd adra. Diwadd taith arall un pnawn mis Mai eleni. Diwrnod heulog. Dafna' o waed! Dafna' o waed wedi ccuol ar hyd wydr allanol drws ein cartra! Beth a fu yma? Aros! ond heb glywed na gweld dim byd, hynny ydy, hyd nes y daeth y bora. Diwrnod o'r newydd ac un godidog o braf hefyd, a rhwbath yn tabyrddu ar wydr allanol y drws. Ceiliog paun oedd yno. Ac mi roedd o wedi gwylltio o weld adlewyrchiad ohono'i hunan yn y gwydr! Mi roedd ei big ar waith! Er mwyn ei arbad rhag 'chwanag o niwad gosodwyd papurau, sef tudalennau newyddiadur, i orchuddio'r gwydr. Ond nid yw'r hanes yn diweddu fan yna 'chwaith. Ymosododd y ceiliog paun ar ochra' drysa' modur fy nghymar, gan adael pantiau a chrafiadau yn y paent. Wedi gweld gwrthwynebydd yr oedd yr aderyn!

Ym myd Natur, fel nifar o adar erill, mae'r gwrywod ymhlith tculu'r pcunod yn amddiffyn cu tiorogaetha' ac yn ymladd yn enbyd dros hyd yn oed stamp o lei! Modur tad fy nghymar a gafodd flas pig y ceiliog paun wedi hynny. Du'n rhaid cuddio'r moduron oddi wrtho. Gwelais yn vgystral yr un aderyn yn troi ar y ddau gi defaid gan eu gyrru ar ffo! Ac fel petae hynny heb fod yn ddigon ymosododd y cythra'l gwyllt ar geiliog paun arall gan dynnu pluen o'i gsfu!

Tan Gaer: Bore Ddydd Iau, Chwefror 27ain, y flwyddyn 2003, clywais ddbio di-baid, a beth oedd yno'n sefyll oddi allan ar silff ffenestr rhan uchaf yr adeilad, yn pannu'r gwydr a'i big, ond iac do.

'Dath cuffedin iawn' eba TG

Byd Natur (1971) ydy clywed am adar yn taro yn erbyn ffenestr. Mae'r gwydr yn gweithredu fel drych ac mae'r aderyn yn gweld yr awyr a'r coed a'r wlad ynddi hi, (ac wrth reswm ei lun!), 'Dydi o ddim yn gweld y gwydr, dim ond y llun.

Eglurir ymhellach nad ydy'r ffenestr yn gweithredu fel drych bob awr o'r dydd, dim ond ar adegau neilltuol. Mae hynny'n dibynnu ar leoliad yr haul yn yr awyr.

Dylid cynorthwyo'r aderyn sy'n ymosod ar wydr ffenestr drwy dynnu'r llenni ar draws y ffenestr pan fo'r haul ar ei anterth.

Tystiolaeth o sir Faesyfed: 'Sylwais fod y Robin a gartrefai yn yr ardd yn diflannu'n aml drwy ddrws sied fechan... Dyna lle roedd yn ei daro ei hun yn erbyn hen ddrych yr oeddwn wedi 'i roi yno wythnos ynghynt.'

Ac ebe Ted Breeze Jones (yn) *Seiat yr Adar* (1981): 'Yn y sefyllfa a ddisgrifwyd roedd y Robin wedi dod wyneb yn wyneb â Robin beiddgar, sef ei lun ei hun yn y drych! Yn hytrach na chilio'n sydyn roedd y tresmaswr yn y drych yn ei hyrddio'i hun i ymladd... Hefyd, cawsom hanesion am adar fel Siglen Fraith yn ymosod ar ei llun yn nrych modur, neu ar ei llun yng nghacad gloyw yr olwyn. Ym mhob achos, camgymeryd ei lun am aderyn arall a wna'r aderyn.'

Mewn gwirionedd, unwaith y diflannu'r adlewyrchiad, mi fydd yr ymosodwr yn gw'bod ei fod wedi trechu'i wrthwynebydd. Yn aml, cyflewnir hyn drwy ddringo i safle uwch na'r aderyn bygythiol, a thrwy wneud hynny galli bob gwyllt o'r adlewyrchiad



Ar Ben Arall y Lein

Pysgota, pa bysgota – does dim dŵr wedi bod yn ein hafonydd ers wythnosau lawer, a phawb yn troi eu bysedd yn ceisio meddwl am rywbeth i'w wneud. Clywais ddigon acw o 'Dos i wneud yr ardd' neu 'Pa bryd wyt ti am dechrau ar y 'stafell yna' – ond wrth gwrs mae gen i esgus da, sef mae eisiau gwneud gwaith i atgyweirio ffos y felin yn Crawia. A dyna lanast oedd yn y fan honno, wedi ei achosi gan y llifogydd mawr ar ddechrau Awst. Yn ôl pob golwg dyma'r tro cyntaf yn hanes y felin, a adeiladwyd tua 1860, i'r Seiont orlifo drosodd i'r ffos a mynd a hanner y clawdd hefo hi.

Felly cario blocs a chymysgu concrit a sment yw fy rhan wedi bod am nifer o ben wythnosau tra bod yr ychydig gweithgar eraill wedi bod yn atgyweirio. Gan fod y gwaith yn mynd ymlaen manteisiwyd ar y cyfle i addasu'r holl adnoddau magu brithyll. Yn awr, mae tanc newydd diogel wedi cael ei gwblhau. Ni all yr hen gi dŵr fynd i hwn am ei swper. Bydd yn bosib tyfu ymlaen tua 2,000 o frithyll hyd at tua 3 phwys. Bydd y stoc cyntaf yn cyrraedd tua dechrau Gorffennaf.

Mae addasiad Melin y Cim, Pontllyfni yn brysur fynd ymlaen gyda'r ddau estyniad wedi eu codi a'r to ar gael ei osod. Mae'n adeilad arbennig a fydd yn gweddu'n arbennig i'r pentref. Da yw gweld hen adeilad fel hwn, a oedd ar un amser yn rhan bwysig o'r gymuned, eto ar fin dod yn ôl i waith, ond nid i gynhyrchu blawd. Rwy'n sicr y bydd y fenter yn llwyddiannus dros ben. Pwy fydd y cyntaf i gael

aros yma tybed.

Yn ôl be rwy'n glywed yr unig 'sgota o safon sydd ar gael ynghanol y sychdwr yma yw ar rai o'r llynnoedd. Padarn, sydd pob amser â hwyl i gael arno, yn enwedig o hyn ymlaen pan fydd y torgoch yn amlygu eu hunain o tua diwedd Mehefin; Dywarchen, ble mae'r stoc o frithyll yr enfys o'r ddeorfa y tymor yma wedi bod yn rhagorol, diolch i'r criw ffyddlon, a Nantlle, ble mae'r brithyll brown gwyllt eleni yn sefyll allan. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr i fynd yno ar ôl llif i ddapio am y sewin.

Mae Is-Ddeddfau Pysgodfeydd Môr newydd yn golygu nad oes rhwydo o gwbl yn y Fenai na rhannau helaeth o Fae Caernarfon, yn cynnwys yr arfordir o amgylch y Llyfni, hyd at ddiwedd Mehefin, a wedyn ar ôl cryn wyrthwynebiad gan bysgotwyr, mae'r cyfnod hyd at ddiwedd Tachwedd wedi ei gynnwys ble nad yw'n bosib defnyddio rhwyd gyda masg llai na 240mm. Hefyd mae rhwydo ar derfyn yn gyfan gwbl yn y Fenai, felly pan ddaw glaw mae'r arolygon am rediadau mawr o sewin a gwell o eogiaid yn ardderchog.

Ar Lyn Nantlle, drwy gymorth Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyngor Chwaraeon Cymru, mae'r gymdeithas wedi lleoli cwch arbennig at ddefnydd rhai sy'n dibynnu ar gadair olwyn, adnodd arbennig mewn lleoliad arbennig. Mae'n bosib yma gyrru i lawr at lan y llyn a wedyn rhoi y gadair yn union yn y cwch

H.P. HUGHES

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

STEPHEN JONES



Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol

Profiadol

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Dathlodd Mr Bryn Griffiths, Delfryn, ben-blwydd arbennig yn 65 oed yn ddiweddar. Hefyd cafodd Mr Derwyn Roberts, Cefn Rhos Isaf ben-blwydd hapus yn 60 oed.

YMDDEOLIAD - SWYDD WAG. Mae Marian Huws wedi penderfynu peidio â dosbarthu'r *Eco* yn y pentref o fis Medi ymlaen. Diolch iddi am ofalu y bu'r *Eco* yn cyrraedd eich drysau. Mae Bethan Iwan yn gofalu am ardal Rhosbach a gwerthiant trwy'r Garej. Nid yw'r gwaith yn ormod - beth am gael sgwrs efo Marian ynglŷn â'r cyfle unigryw hwn! Heb lenwi'r swydd, dim ond trwy'r Garej y bydd yr *Eco* ar gael i'r pentref a bydd Caeathro yr unig bentref yn nalgylch yr *Eco* heb ddosbarthwr lleol.

MARATHON LLUNDAIN. Llongyfarchiadau i Hefin Hughes, Lleifior gynt, am godi dros £5,000 trwy nawdd wrth iddo redeg a chwblhau Marathon Llundain. Diolch i'r llu noddwyr yng Nghaeathro mae Ysbyty Glan Clwyd a 'BLISS' - sef cymdeithas genedlaethol i blant sydd wedi eu geni cyn eu hamser - wedi elwa. Hefyd mae Hefin wedi colli pwysau! Da iawn, iawn.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Gorffennaf:
4: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Trefor Jones (Cymun)
11: 11.00 Ysgol Sul
18: 11.00 Ysgol Sul
25: 10.00 Mr Dafydd Iwan (Gwasanaeth Teuluol a phaned)

EISTEDDFOD YR URDD YNYS MÔN Llongyfarchiadau i holl blant y pentref a fu'n llwyddiannus yng nghystadlaethau'r Urdd eleni. Daeth amryw o'r plant i'r brig neu gael anrhydedd fawr mewn cystadlaethau llwyfan a gwaith llaw. Da iawn chi, blant os. Llongyfarchiadau arbennig i Gwen, Dolgynydd Uchaf, ar ennill y Tlws Cenedlaethol am yr eitem orau yn yr Adran Tecstilau. Da iawn chi i gyd. Rydych i gyd wedi rhoi Caeathro ar y map. Daliwch ati.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Mehefin oedd:
£40: (92) V. Jones, Llain Meddygon; £25: (9) Llŷr Morus, Penrhos; £15: (95) S. Hughes, 7 Erw Wen; £5: (57) Richard M. Roberts, 9 Bryn Gof.

MIRI HAF. Bydd Miri Haf eleni ar ddydd Sadwrn, 17 Gorffennaf am 2.00 y pnaen ar y Cae Chwarae / Cae Pêl-droed. Syrcas/Circus fydd yn darparu adloniant.

NOSON O GÂN. Bydd Noson o Gân efo Dylan a Neil a'r grŵp 'Dynamic' ar nos Sadwrn, 3 Gorffennaf am 7.30 ym y fferm Glanyrafon Bach (ffordd Waunfawr). Hefyd bydd BBQ, bar hwyr a raffl. Tocynnau £4 - ar y ffordd i mewn neu ymlaen llaw gan aelodau'r pwyllgor codi arian at y Ganolfan. Croeso i bawb.

PEN-BLWYDD HAPUS. Llongyfarchiadau i Jayne Lloyd, Tyddyn Cae ar ei phen-blwydd yn 40 oed.

**Cefnogwch
ein hysbysebwy**

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

MARWOLAETH. Bu farw Mr John Edward Brennan, Afallon, yn Ysbyty Gwynedd ar 28 Mai yn 83 mlwydd oed. Tua ugain mlynedd yn ôl, daeth Mr a Mrs Brennan i fyw i'r ardal er mwyn cael byw yn ymyl eu diweddar ferch, Annette, a'i dau fab, Ben a Mathew, a oedd yn byw yn Llanberis. Yr oedd yn ŵr bonheddig yng ngwir ystyr y gair, ac fe wnaeth y ddau gymysgu'n dda hefo'r Cymry. Bu yn aelod o bwyllgor y Ganolfan ac yn drysorydd y clwb Snwcer a gwnaeth ei waith hefo'urddas. Fe fydd colled fawr i'r ardal ar ei ôl. Anfonwon ein gydymdeimlad llwyr i'w wraig, Mrs Yvonne Brennan, a'i ferch, Roslynne a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Boed iddynt gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau calonog i Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ond sydd ar hyn o bryd yn cartrefu ym Mron Eryri, Llanberis, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar 15 Mehefin. Gobeithio y bydd iddi gael llawer pen-blwydd arall. Pob bendith ac iechyd i'r dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Mrs Yvonne Brennan a Roslynne ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y galwadau ffôn a'r rhoddion hael tuag at Ymchwil Cancer.

CLWB ORWIG. Profi cof aelodau a wnaed ar 17 Mehefin pan ofynwyd iddynt adnabod lluniau o enwogion byd y sgrin a'r llwyfan, prif weinidogion a chantorion o flynyddoedd yn ôl. Bu llawer o grafu pen tra'n dyfalu pwy oeddynt. Yr enillwyr oedd John Cantrell, Morfudd Jones a Megan Morris. Cyflwynwyd tusw o flodau i Megan Morris ar achlysur ei phen-blwydd. Rhoddwyd y te a'r gwobrau raffl gan Nellie Wyn Jones a Morfudd Jones. Enillwyr y raffl oedd Ann Lo, Elizabeth Ann Jones a Morfudd Jones. Anfonwyd dymuniadau da a rhodd i Katie Lloyd Hughes ar ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Darllenwyd llythyr oddi wrth Sally Brennan yn diolch am y cyfraniadau ariannol a'r negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniodd pan fu farw John, ei gŵr. Bu'n aelod selog o'r Clwb a bydd colled ar ei ôl.

YN YR YSBYTY. Fel yr wyf yn anfon y newyddion i'r *Eco* clywais fod Mrs Katie Lloyd Hughes wedi gorfod mynd i Ysbyty Gwynedd. Mae hi adref erbyn hyn ac yn ôl ym Mron Eryri ac yn dymuno diolch i bawb am eu hymrwiliadau a'u galwadau ffôn. Hoffai ddiolch hefyd am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd.

Gobeithio y byddwch yn dal i wella, Mrs Hughes.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu gweithgareddau'r gangen leol yn niferus gydag amrywiol drefniadau ar gyfer y gweddill o fisoedd yr haf.

Nos Lun, Mai 17eg cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaban y Cwm dan gyfarwyddyd Mr Keith Edwards yn tywys yr aelodau yn y grefft o lunio basgedi crog. Yn dilyn cyflwynwyd yr Argymhellion a drafodir yn y Cyngor Cenedlaethol yn Llundain sef Gwarchodaeth Merched a phlant, Cnydau GM a Chefnogaeth i'r Ambiwllans Awyr. Pleidleisiwyd yn unol o blaid y cyfryw. I gefnogi'r mudiad yn y dalgylchol gyda chynllun 'Prosiect Mesen' codwyd arian gyda bwrdd 'Moes a Phryn'. Verna Jones oedd yn gofalu am y lluniaeth a chyflwyno anrheg y mis, a enillwyd gan Ifanwy Jones.

Nos Lun Mehefin 28ain, Mrs Enid Mummery o Niwbwrch oedd y wraig wâdd yn arddangos y grefft leol, sydd dros saith gan mlynedd oed, o blethu gwiall i greu basgedi a matiau. Carol Houston oedd yng ngofal y lluniaeth ac anrheg y mis. Bydd y trip dirgel blyneddol nos Lun Gorffennaf 12fed, yn cael ei drefnu gan Pat Jones a Carol Houston.

Ar Offennaf 24ain bydd aelodau'r gangen ar y cyd â Changen Beddgelert, yn darparu arlwyaeth i'r ras boblogaidd, Ras yr Wyddfa, fel rhan o'r Prosiect Sialens Cymunedol Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched. Dewisodd y ddwy gangen gynorthwyo Ysgol Pendalar, Caernarfon i sefydlu yr Ardd Synhwyraidd Dan-do fydd yn costio £20,000-£30,000 fel rhan o'r cynllun arfaethedig i ailadeiladu'r ysgol. Mae angen dybryd am noddwyr mewn gwobrau raffl, arian parod i brynu lluniaeth neu unrhyw rodd i'r achos teilwng hwn. Diolchwn ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

CYDYMDEIMLAD Estynnwn gydymdeimlad dwys â Mrs Ifanwy Jones a theulu Rhandir yn y brofedigaeth o golli ei mam, y ddiweddar Mrs Buddug Davies, Wrecsam ar Fehefin 10fed. Bu'r gwasanaeth angladdol ar Fehefin 17eg yng Ngapel y Groes, Wrecsam ac yn dilyn yn yr

Amlogfa. **DIOLCH** Dymuna Ifanwy a Gwyn Hefin Jones a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch i Mr Dylan Griffith am ei drefniadau gofalus.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Huw Evans, Min-y-Don ar gael cynnwys llun arbennig o'i eiddo yn y *Daily Post*. Dyna'r fantais o gael byw ar bwys Pont Pen Llyn a bod yn y fan a'r lle ar yr adeg gywir i drysori'r golygfeydd prin hynny o Lyn Padarn a'r Wyddfa yn y cefndir. Roedd yr olygfa hydrefol unigryw yn y llun wedi derbyn canmoliaeth uchel.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD COFION. Yn ystod yr oedfa nos Sul, Mehefin 6ed, anfonwyd cofion at rai o'r aelodau a chydabod oedd yn wael eu hiechyd, a chyfeiriwyd at un o'r aelodau hynaf, sef Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel gynt, oedd wedi treulio cyfnod yn ddiweddar mewn ysbyty yng Nghaer ond sydd ar hyn o bryd yn cartrefu gyda'i merch Dilys Robinson.

OEDFAON GORFFENNAF

- 4: Mr John H Hughes, Llanberis am 10.00
CYMANFA GANU
HENADURIAETH ARFON
yng Nghapel Berea Newydd, Bangor am 6.00
Arweinydd: T Gwynn Jones, Llanfairfechan
Organydd: Menna Leyshon, Berea Newydd
(Bydd y detholiad o Emynau a Thonau a genir allan o *Caneuon Ffydd* i ddathlu Diwygiad 1904-05).
- 11: Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30
- 18: Parch Olwen Williams, Tudweiliog am 2.00
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 25: Parch Cath Williams, Caernarfon am 10.00

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



LLONGYFARCHIADAU mawr i Sara a Simon, Tan-y-Bryn ar eu priodas ar 15 Mai. Cawsant ddiwrnod braf iawn a mis mêl arbennig yn Iwerddon! Pob lwc i'r ddau ohonoch yn y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Mark a Karen, 2 Bro Glyder, ar eu priodas ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna'r Cynghorydd Trefor Edwards ddiolch yn fawr iawn i holl etholwyr Llanberis a Nant Peris am eu cefnogaeth yn ystod yr etholiad.

DA CLYWED fod Tony Ellis wedi gwella ar ôl ei gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymuna ddiolch am yr holl gardiau a'r galwadau ffôn a'r holl ymweliadau a gafodd tra yn yr ysbyty.

SIOP Y NANT. Mae'n braf gweld y siop ar agor unwaith eto! Pob lwc i Tom, Ruth a'r genod.

CROESO CYNNES i'r curad newydd - y Parch Deiniol Morgan a'i wraig, Helen. Da gweld ei ddylanwad yn syth pan lwyddodd i heidio ei blwyfolion i fynwent yr eglwys un dydd Sadwrn poeth iawn i dorri gwair! Diolch i bawb a fu'n gweithio, chwysu ac yn bwydo. Mae'r fynwent bellach yn werth ei gweld.

DYMUNA Wendy Jones, Tan-y-Bryn, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd; a dymuna Caron - ei mab - hefyd ddiolch am bob cymorth wedi iddo dorri ei fraich tra'n dringo. Diolch yn fawr iawn.

TY'N LLAN. Yn y dyfodol, fe

gynhelir y Noson Lawen ar nos Lun diwethaf o bob mis am 8.30yh. yn hytrach nac ar y nos Wener diwethaf ymhob mis.

FFAIR NANT 2004. Cynhelir wythnos Gŵyl Ffair Nant rhwng 11 a 18 Medi. Dyma drefn yr wythnos:

Dydd Sadwrn. Gŵyl Flodau - derbyn blodau ac ymgeisiadau gwaith cartref yn Eglwys Sant Peris o 10.00 y bore tan 4.00yh;

Dydd Sul: Cymanfa Ganu yn Eglwys Sant Peris am 7.30yh. Côr Dyffryn Peris a thalentau lleol;

Nos Lun: Rasys ceffylau yn Ty'n Llan;

Nos Fawrth: Noson Cwis yn Ty'n Llan;

Nos Fercher: Cystadleuaeth pŵl yn Ty'n Llan;

Nos Iau: Helfa Drysor. Cychwyn o Ty'n Llan am 6.00yh;

Nos Wener: Cystadleuaeth 'Stars in Their Eyes'. Plant o 7 i 8.30, yna oedolion. Cysyllter â Llinos Jones (01286 871820) am fwy o fanylion. *Dydd Sadwrn:* Diwrnod y Ffair. Manylion i ddilyn.

Cystadlaethau Cartref

Crefftwaith i'w ddygyd i GLANRAFON neu EGLWYS SANT PERIS Nant Peris erbyn dydd SADWRN MEDI 11eg 2004 ar ôl 2 o'r gloch

PLANT

COGINIO

dan 11 oed: 6 teisen Tylwyth Teg gyda haen o siwgr
12-16 oed: Bisgedi o ymenyn a siwgr

FFOTOGRAFFIAETH

Dan 11 oed: Hoff flodau
12-16 oed: Chi a'ch teulu ar wyliau
CELLF

Dan 8 oed: Llun o'ch anifail anwes
8-16 oed: Llun o lan-y-môr

Dan 16 oed: Cynllunio poster ar eich cyfrifadur i hysbysebu Ffair Nant 2005

CREFFT

Dan 8 oed: Dyn bach llysiau

8-12 oed: Gardd ar blât (10")

12-16 oed: Trefniad blodau

GWEU

Dan 16 oed: Blanced/Sgarff liwgar
GWNIO

dan 16 oed: Doli glwt (dim mwy na 18" o daldra.)

OEDOLION

COGINIO

Cacen sbwng arbennig; Cacen siocled; Bara Brith; Tarten afal; 6 Sgon gyda ffrwythau.

JAM: Mafon; Mefus; Mwyar duon ac afal; Marmaled.

GWIN A GWIRODYDD: Gwin gwyn neu goch; Cwrw neu Lager; Jin a wneir o eirin duon bach (blas o'ch dewis)

FFOTOGRAFFIAETH

Ffotograff teulu yn chwarae'n hapus; Ffotograff o Nant Peris gyda cherdyn Nadolig 2004 mewn golwg; Darlun o blentyn 8"x10" wedi ei fframio.

CELLF

Tirlun o'ch dewis dim mwy na 20" x 20".

GWAITH COED

Darn o bren wedi ei droi neu ei gerfio; Ffon wedi ei haddurno.

TREFNIAD BLODAU

Trefniad gyda'r cynhaeaf mewn golwg.

GWEU

Cardigan neu siwmpwr sy'n cynnwys Fair Isle ar gyfer plentyn.

CROSIO

Doili cotwm

GWNIO

Doli glwt

PWYTH CROES

Llun o'ch dewis wedi ei fframio dim mwy na 12"x12"

TAPESTRY

Golygfa Pentre wedi ei fframio dim mwy na 18"x24"


GŴYL FFIDIL YR WYDDFA. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n gyfrifol am yr ŵyl, bu'n llwyddiant ysgubol o ystyried mai hon oedd yr ŵyl gyntaf. Bu gweithdai ffidil drwy'r dydd yn y dafarn a'r eglwys a chafwyd cyngerdd bythgofiadwy yn yr eglwys i goroni'r noson gyda'r

Chwirydd Munro a'r Brodyr Kilbride a Cass, Neil ac Idris a Chlwb Ffidil yr Wyddfa yn eu cyngerdd cyntaf - llongyfarchiadau i bawb.

TAITH ER COF. Ar nos Fercher, 16 Mehefin, cafwyd taith hynod ddifyr o'r pentref i Ddolwyddelan - er cof am Nanws ach Robart, cymeriad hynod a arferai gerdded o Ddolwyddelan i Nant Peris bob dydd Sul i addoli yn yr Eglwys yn y ddeunawfed ganrif. Cafodd pawb gyfle i ddysgu am hanes yr eglwys ac am hanes bywyd hynod Nanws, diolch i Mrs Alma Roberts. Cafodd pawb fwynhau pryd o fwyd blasus iawn ar y ffordd adref a diolch byth fod gennym fws i'n cludo adref... mae'n anodd credu i Nanws gerdded yr holl ffordd dros ddwy ganrif a hanner yn ôl!



Rhai o'r criw o flaen bedd Nanws.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:

Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

EGLWYS SANTES HELEN

Dydd Gweddï a Rhodd. Gweinyddir y Cymun Bendigaid fore Sul, 4 Gorffennaf am 10.30 gan y Ficer, y Parch Ann Smitham.

Am 4.00 o'r gloch ceir Gosber, gyda'r Parch Ganon Geraint Wyn Edwards, Bae Cemaes yn pregethu. Fe fydd aelodau o'r Efaill Eglwys Cemaes yn ymuno yn y gwasanaeth ac yn dilyn gyda lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys.

Y FYNWENT. Eisoës, mae gwair y fynwent wedi cael ei dorri ac mae'r rhoddion hael canlynol wedi eu derbyn yn ddiolchgar tuag at y gost o'i chadw'n daclus.

£10 gan Mrs R. Morris, 2 Llŷ y Gwynt; £5 gan Mrs C. Williams, 20 Bryn Tirion; £5 gan Mrs A. Jones, 4 Llŷ y Gwynt; £10 gan Mrs Nan Jones, Caernarfon; £20 gan Mr a Mrs B. Evans, 8 Glan Seiont, Caernarfon; £5 gan Mrs Gladys Davies, Caernarfon; £5 gan Mrs Eirlys White, Llandudno; £10 er cof am Mr a Mrs Myfyr Lewis, Rhydfadog Deiniolen gan Linor a Nancy - chwiorydd; £20 gan Mr a Mrs Gareth Thomas, 82 Y Wern, Y Felinheli.

Y CARNIFAL A'R GWEITHGAREDDAU. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer gweithgareddau'r Carnifal. Fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn, 11 Medi, gyda'r gweithgareddau yn cael eu cynnal yn ystod mis Medi. Ceir manylion pellach yn y rhifyn a ddaw allan ddechrau Medi.

Cynhelir Pwyllgor ar 12 Gorffennaf am 7 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys. Croeso cynnes i bawb.

PRIODASAU. Llongyfarchiadau a phob bendith i Eryl Jones, 5 Bryn Tirion gynt ar ei briodas â Christine Jones o Gaerwen. Fe'u priodwyd ddydd Gwener, 11 Mehefin yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy. Maent bellach wedi ymgartrefu ym Mangor.

EIN DYMUNIADAU gorau a'n llongyfarchiadau gwresog i Roberta Griffiths, Croesffordd King gynt ar ei phriodas â Gareth Roberts, Eglwys Bach, Conwy. Cynhaliwyd y gwasanaeth priodasol ym Mhorthmeirion. Roedd teulu'r ddau yn bresennol i ddathlu'r achlysur hapus. Maent

wedi ymgartrefu yn Eglwys Bach. Pob bendith i'r ddau ohonoch.



Dyma Anest Bryn gyda'r tlws a enillodd am ddod yn gyntaf am Ddawnsio Gwerin unigol dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Môn.

YR YSGOL GYMUNED. Ar 9 Mai, cymerodd un o'r rhieni, sef Mrs Allison Donnelly, ran yn Nhreithlon Harlech, ei threithlon gyntaf erioed. Y gamp oedd nofio 400m, beicio 37km ac yna rhedeg 6km, y naill ar ôl y llall! Fel un o Gyfeillion yr Ysgol, manteisiodd Mrs Donnelly ar y cyfle yma i godi arian ar ran cronfa'r Cyfeillion ac fe aeth pawb ati, yn rhieni ac yn blant, i chwilio am noddwyr ar gyfer y gamp yma. Ar ddiwedd Mai 9, roedd Mrs Donnelly wedi blino braidd, ond yn hynod o hapus ei bod wedi llwyddo i gasglu cyfanswm o £763. Diolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith caled ac i bawb aeth i gasglu, ac wrth gwrs, i bawb a'i cefnogodd.

Manteisir ar y cyfle i longyfarch Anest Bryn, a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth Dawnsio Gwerin yn Eisteddfod yr Urdd ym Môn yn ddiweddar.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Anna George a gipiodd dlws blynyddol Selwyn Griffith eleni am waith da yn y Gymraeg. Diolch yn fawr i Mr Griffith am ei haelioni tuag atom. Da iawn Anest ac Anna. Daliwch ati.



Mrs Alison Donnelly yn cyflwyno siec o £763.00 i Mr Robert Humphreys. Codwyd yr arian wrth i Mrs Donnelly gael ei noddi gan blant yr ysgol i gymryd rhan mewn Treithlon yn Harlech

URDD ADRAN BENTREF. Llongyfarchiadau mawr i Anest Bryn ar ei champ fawr yn ennill y tlws hardd am Ddawnsio Gwerin unigol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn. Llongyfarchiadau hefyd i'w hyfforddwraig, Judith Harding. Braff hefyd oedd gweld cyn-aelodau fel Erin Eifion fel aelod o Gôr CF1 Caerdydd, a gipiodd y wobwr gyntaf. Dalied ati.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Cwlb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd Mrs E. Jones, 25 Bryn Tirion; Elwyn Williams, Bryn Rhydd Mawr; Dafydd Hughes, Afallon.

Bydd tocynnau Raffl ar werth o Orffennaf ymlaen, tuag at y gost o redeg y Neuadd.

PWYLLGOR EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU 2005. Cynhelir Pwyllgor nos Lun, 5 Gorffennaf yn yr Ystafell Gymuned am 7.30. Deallir fod y rhoddion a dderbyniwyd eisoes yn haelionus dros ben a diolchir i'r holl gyfrannwyr. Gobeithir trefnu gweithgareddau tuag at yr Apêl yn fuan wedi'r gwyliu.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Bu'n Sul prysur dros ben i'r plant ar 27 Mehefin, gyda Chyma'nfa'r Methodistiaid yn Seiloh, Tregarth am 2.00 ac yna Gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yn Eglwys Santes Helen am 5.30. Diolchir i'r plant a'r athrawon am eu gwaith caled a hynny drwy'r flwyddyn. Diolchir hefyd i'r rheini am eu cefnogaeth a'u hanogaeth parod.

Cynhelir Sbrîr Ysgol yn Ysgol Brynrefail bnawn Sul, 11 Gorffennaf am 2.00. Bydd cyfle i'r rhai sy'n dymuno ymuno ag Ysgolion Cylch Arfon i ddod i fwynhau pob math o weithgareddau diddorol.

TRIP YR YSGOLION SUL I SOUTHPORT - 3.07.04.

Bydd y bws yn cychwyn o Groesffordd King am 8 o'r gloch. Y mae ychydig o seddau ar gael o hyd. £10 i oedolion a £5 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Cysyllter â Mrs Elizabeth Jones, ffôn 872421.

CRONFA CINIO'R HENOED. Cynhelir Pêl Bonws - Bonus Ball yn fisol bellach er budd Cinio Nadolig yr Henoed. Mae gwobr hael i'r enillydd. Pris £1 y mis. Creoso i unrhyw un ymuno.

NEWYDDION DA. Daeth newyddion da i'r Ysgol yn cyhoeddi genedigaeth bachgen bach, Cian Glyn, i Bethan a Peter. Bu Bethan Williams yn weinyddes yn yr ysgol am gryn amser ac yn hynod weithgar a chymwynasgar. Dymunir pob bendith i chwi fel teulu oddi wrth pawb yn yr Ysgol a'r pentref.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion gorau at bawb sydd wedi bod yn sâl. Dymunir adferiad iechyd buan i chwi oll.

POB LWC. Y mae'r arholiadau bondigrybyll bron ar ben i bawb ohonoch. Pob dymuniad da i chwi a mwynhewch y gwyliu.

Y RHIFYN NESAF. Daw rhifyn nesaf o'r Eco allan yn nechrau mis Medi. Felly cadwch eich newyddion ac anfonwch hwy erbyn y dyddiad a nodir. Gwyliu hapus i chwi oll.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR


• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMYAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mèrcher

Miss Corona 1951

gan Y Gwalch

Yr ail bennod

Roedd hi'n hwyr arna' i'n dod adref o dŷ yr hogan goch, yn wablian o glawdd i glawdd a'm pen yn llawn o dardh gwin cartref. Gwelais amlinelliad o garafanau'r sipsiwn ar droed y gorwel. Es i'r gwely yn syth a chysgu, ond deffrois ymhen ychydig ar ôl i mi gael rhyw fath o hunllcf. Roeddwn wedi mynd i gael rhyw droeon felly yn y nos. Soniais am y peth wrth Sinffi Cooper, ac roedd hi'n gweld arwyddocâd difrifol i'm breuddwydion. Fe fuasai wedi hoffi darllen fy ffortiwn, ond gwrthod yn bendant a wnawn bob tro.

Treuliais weddill y noson fer yn hollol effro, yn pendroni ynglŷn â'r hogan goch. Fe'i ganwyd mewn rhyw stryd gefn ym Mromwich, meddai hi. Er hyn, siaradai am y tir a thraddodiad fel pe bai un o'i chyn-deidiau wedi argraffu Llyfr Doomsday. Roedd hi'n awdurdod ar geffylau, a geifr a defaid a phob rhyw anifail anwes. Roedd hi hefyd yn un o aelodau blaenllaw pwyllgor y sioe geifr. Cefais groeso brenhinol fel pob rhyw ysgub newydd pan es i drin gardd yr hogan goch. Roedd hi hyd yn oed yn gadael i mi fynd i'r tŷ i wneud panad i mi fy hun pan oedd hi'n cyrchu'r hogan bach o'r ysgol yn ei Mercedes mawr glas. Ni feddyliais erioed sut yr oedd hi'n gallu fforddio i gadw cerbyd felly. Roeddwn i'n gorfod celcio i hyd yn oed gael teiar ar gyfer fy meic bach.

Roedd newyddion yn cael eu cludo yn gyflym ar y tabyrddau yn y plwyf hwnnw. Yn fuan, daeth yr hen Yeoman ataf gan ddweud, 'Rwyd ti wedi cael swydd uchel i fyny 'na, rwy'n gweld. Tendia gael y bai am ryw beth na wnest ti ddim.'

'Megis beth?' gofynnais.

Gan roi'r cap yn ôl ar ei ben, dywedodd yr hen wr, 'Dwyn afalau neu ryw beth felly.'

Daeth Sinffi Cooper i'm gweld ryw gyda'r nos efo hasgedaid o bŷ dan ei braich. Eisteddodd ar y stepan drws a dechreuodd eu deor yn syth. Roeddwn yn gwybod o'i hagwedd fod rhywbeth wedi mynd yn groc, oherwydd fel rheol, byddai'n treulio oriau yn dyrnu fy hen deipiadur - yr un mawr haglog hwnnw a brynais yng ngoreaf yr heddlu yn Evesham.

'Dydi hi ddim yn dŷ ffortiwn di,' meddai hi o'r diwedd.

'Pwy?' gofynnais.

'Yr hoeddan wallt coch 'na,' meddai hi'n hithau.

'O, a pwy sydd yn fy ffortiwn ta?' gofynnais eto.

'Y fi te,' meddai gan ysgwyd ei phen.

'Sut felly?' gofynnais. 'Fedri di ddim gwadu dy waed a gadael dy lwyth.'

'Ddim yr ochr yma, frawd,' meddai'n bendant.

Roeddwn mewn penbleth erbyn hyn, 'Be wyt ti'n feddwl?' gofynnais.

'Yr ochr draw,' meddai eto. 'Byddi di a minnau efo'n gilydd yn y fan honno. Wedi iddyn nhw losgi fy mhethau i, wedi i mi fynd yn hen hen, mi fydda' i wedi mynd at y Duvel, ac mi fydd dwy seren newydd ochr yn ochr â'i gilydd ar ael y wybren y noson honno, frawd. Y fi a chdi fydd rheiny. Mi fyddan ni efo'n gilydd am byth. Mae ein heneidiau ni yr un peth weli di, frawd.'

'Wyt ti'n meddwl, Sinffi?' gofynnais mewn syndod.

'O, mi rydw i'n siŵr, frawd,' ategodd hithau.

Ac os oedd Sinffi Cooper yn siŵr, 'doedd dim diben dadlau â hi.

Ar hynny, daeth car smart gyda bocs ceffylau yn sownd wrth ei gwt i giât y gadlas. A phwy oedd yn eistedd ynddo efo rhyw ddyn, ond Margeri yr hogan goch. Cododd ei llaw.

Cuchiodd ael Sinffi Cooper. Cythrod i'w basged a llamodd ar draws y gadlas. Gwaeddais ar ei hôl ond nid arafodd ei cham na throi ei phen yr un fodfedd.

Mae'n rhaid i ddyn ennill ei damaid y gorau y gall, a dal i fynd i'r tyddyn wnes i. A dweud y gwir, roedd pethau'n dod ymlaen fel lli'r afon. Roeddwn ar delerau enwau cyntaf efo Margeri erbyn hyn. Roeddwn yn John hyn-a-hyn ac yn arddwr-gorau-a-roddodd-raw-mewn-daeaf-erioed. Roedd y lodes fach hithau wedi colli ei swildod ac erbyn hyn, fi oedd Yncl John, y smaliwr a'r tidliwinciwr gorau yn y dalaith.

Cefais fy nghyflwyno o bryd i'w gilydd i ymwelwyr eraill a ddeuai i'r tyddyn. Roedd y rhain yn rhinwedd eu harbennig swyddi wedi dod yn aelodau rhan amser o'r menage, cyn f'adeg i.

Gwrddais ag Yncl Chris, dyn y bocs ceffylau. Nid yn unig yr oedd yn awdurdod ar cifer, yr oedd hefyd wedi rhoi merlen yn anrheg i Heidi. Arfcrâi ci chludo yn ôl ac ymlaen i gymkanas y plwyf yn ei het galed a'i glôs. Ac yna roedd Yncl Harry, neu yn hytrach, i roi iddo ei deitl ffurfiol. Mr James, perchennog y garej yn Hithwisa Magna. Fo oedd yn trwsio'r car am ei fod yn athrylith efo Myres. Yn ei amser hamdden byddai'n dod am wersi fiolin a dawnio Morus. Yn bersonol roeddwn i o'r farn fod ei goesau braidd yn rhy fyr i gloccio i gyfeiliant.

Un gyda'r nos braf, daeth y ddwy ferch i'm gweld, y fam wedi'i gwisgo ar gyfer achlysur go arbennig: côt ffwr ffug a sgidiau sodlau uchel a rhuban du am ei gwddf. Roedd fel petai hi mewn galar ar ôl i ryw berthynas iddi dagu i farwolaeth. Erbyn deall, roedd hi wedi cael gwŷs sydyn i fynd i ryw bwyllgor yr oedd hi'n gysylltiedig ag o. Gofynnodd i mi tybed a fuaswn, yn fy mawr ddoethineb a'm trugaredd, yn malio gwarchod Heidi bach am rhyw awr.

Ychwanegodd mai ond ynof-fi, Yncl John, a neb llai, y buasai hi'n ymddiried i ymgymryd â'r fath gyfrifoldeb. Roeddwn yn teimlo fy nillad yn rhyw dynhau amdanaf. Wedi'r cwbl, pa aberth oedd o i mi gael cwmpeini rhyw heb bertan bach fel Heidi?

A dyna a wnes i y noson honno. Cefais foddion i adfeddiannu fy mhleentyndod, stad nad ydw i hyd heddiw wedi ei llwyr daflu heibio. Gadewais iddi chwarae â'r teipiadur mawr. Aeth yr amser heibio fel breuddwyd a minnau'n ei gweithio hi fel pe bawn wedi magu llong tŷ o blant. Heb i mi sylwi, aeth yn hwyr ac yn dywyll, yn unarddeg a hanner nos heb arwydd fod y fam am ddychwelyd. Roedd y lodes fach, ar ôl cael bwyd a diod, wedi mynd yn bendrwm, ac yn y diwedd, fe'i rhoddais i orwedd ar fy ngwely a rhyw hen gôt drosti. Cysgodd yn syth.

Dyna lle roeddwn i, erbyn hyn, yn dechrau hel meddyliau ynghylch y ddyns ei hun. A oedd hi wedi mynd i ryw dramgwydd ar y ffordd neu a oedd hi wedi ei g'leuo hi i ffwrdd i gael gwared â'i phlentyn. Roedd hi wedi dwed wrthyf droeon pa mor ansicr oedd ei bywyd hi. Methai gyfarfod â thaliadau'r morgais; methai gael arian yn rheolaidd gan ei gŵr, methai hyn a'r llall.

Dychmygais y byddai'r hogan fach yn amddifad a minnau'n gorfod gofalu amdani a'i llusgo hyd y byd hefo mi. Erbyn hyn, roeddwn wedi mynd yn bendrwm fy hun, a dyma fi'n gollwng fy hun i lawr ar y gwely wrth ymyl y ferch fach. Mac'n rhaid fy mod wedi hepiant. Pan ddeffroais, roedd y beth bach wedi stwffio ataf fel cath fach at ei mam, ei phen yn pwyso ar fy mraich. Ni allwn symud heb ei deffro. A fuoch chi'n cysgu efo plentyn bach rywdro?

Yn sydyn, daeth rhyw ddicter drostaf. Lle roedd ei mam? Doedd dim synnwyr ei bod yn gorfod bod dan ofal estron pur. Roeddwn i'n dechrau dyfalu beth fuaswn i'n ddwud wrthi a chaniatau ei bod hi'n dod yn ei hôl. Ar hynny, daeth sŵn dyrnu ar y drws.

(I'w pharhau)

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi):

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi): neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cŷch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 3 Mehefin, yn Festri Eglwys y Waun, cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Frances Hurst, sydd wedi dod i fyw i Stad Croesywaun, i'r cyfarfod.

Y wraig wadd am y prynhawn oedd Mrs Miriam Jones, Siop y Plas, Caernarfon. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi am emwaith, gan egluro'r gwahanol raddau o aur, arian a cherrig gwerthfawr. Rhoddodd amryw o'r aelodau eu modrwyau ac eitemau eraill iddi i'w pwysu, a chael rhyw syniad o'u pris heddiw. Gadawodd pawb y cyfarfod gan deimlo eu bod yn cario gwerth arian ar eu bysedd!

Diolchodd y Llywydd i Mrs Jones. Enillwyd y raffl, wedi ei roi gan Wenna Edwards, gan Nancy Buckley. Ar 1 Gorffennaf bydd yr aelodau yn mynd am drip i Felin Llynnon, Llanddeusant.

HOFRENNYDD YN GLANIO. Fe ymlwybrodd llawer ohonom at ymylon y pentref er mwyn cael cipolwg ar yr hofrennydd a oedd wedi gorfod glanio yn y cae oherwydd nam mecanyddol. Wedi iddi gael ei hatgyweirio yn ystod y dydd roedd yna griw da wedi ymgynnull i'w gweld yn codi ac yn ffarwelio â'r criw. Roedd amryw wedi rhyfeddu at faint yr 'aderyn mawr melyn' fydd yn hofran uwch ein pennau yn aml, a nerth y gwynt wrth i'w hwyliau droi a chodi sbîd.

LLONGYFARCHIADAU.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dymunwn yn dda i Mrs Jini Roberts, 9 Bryn Golau ar ei phen-blwydd yn 80 oed. Ac hefyd i Mrs Nellie Roberts, Tref Eilian, fydd yn dathlu cyrraedd ei 93 mlwydd oed ar 1 Gorffennaf.

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i Kevin a Ffion, Cae Trefor ar enedigaeth merch fach, Beca, chwaer fach i Tomos Siôn.

Merch fach, Alina, a anwyd i Susan a Steven, Goedwig, chwaer fach i Sean a Cameron. Llongyfarchiadau i chwithau a chroeso i'r ddwy fach.

Daeth Mrs Annie Thomas, Gilfach, Tŷ Hen yn hen nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Osian, i'w wyres, Emma.

PRIODASAU. Dymunwn bob hapusrwydd i Martin Roberts, Sŵn y Gwynt, ar ei briodas â Miriam Ryder o Langetni, ac yn ôl cartref newydd yng Nghaernarfon.

Yr un yw ein dymuniad i Gwyn Morris, Ael y Bryn, ar ei briodas â Charlotte o Bontllyfni. Maent hwy wedi ymgartrefu yn Llanllyfni.

YR URDD. Nos Iau, 17 Mehefin, aeth Gwenan. Elin. Ffion Rebecca, Anya a Sioned i gynrychioli cangen yr Urdd i'r mabolgampau cylch. Daeth y tîm ras gyfnewid yn drydydd a daeth Gwenan yn gyntaf yn y ras raddog. Bydd hi yn awr yn cynrychioli cylch Arfon yn y mabolgampau Sir ar gaeau Treborth ar 28

Mehefin. Llongyfarchiadau iddynt a phob hwyl i Gwenan.

Iola Ynyr, Dolwar Fach, oedd un o gyfarwyddwyr y sioe 'Joseff' yn Eisteddfod yr Urdd Môn. Llongyfarchiadau iddi ar ei gwaith. Roedd canmol mawr i'r sioe.

ADREF O'R YSBYTY. Wedi iddo dreulio tair wythnos yn Ysbyty Gwynedd ac Alder-Hey, mae Dafydd Llwyd, Dolydd, adref ac yn gwella'n ara bach.

Croeso adref hefyd i Dafydd Llwyd, Gwastadfaes, wedi iddo gael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Daeth Mrs Jeni Jones, Glyn Ceris adref wedi cael triniaeth ac hefyd Mrs Jini Roberts, 9 Bryn Golau; Rhys Thomas, Dôl Erddi; Mr Richard Charge, Lliffon a Mr Richard Owen, Bro Waun. Hyderwn y bydd pob un ohonoch yn teimlo'n well ar ôl dod adref ac y cawn dywydd braf i godi calon.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Irene Roberts a'r teulu, Pant Teg, yn eu profedigaeth lem o golli mam, Irene.

Daeth profedigaeth o golli mam i ran Mr Jeff Daniels, Stad Tŷ Hen hefyd. Anfonwn ein cydymdeimlad ato ef a'r teulu.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mr Gareth Williams, dirprwy Brifathro yr ysgol, yn ei brofedigaeth o golli brawd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Jeni Jones, Glyn Ceris, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod ei dau arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref.

DYMUNA Garry a Nia, Dolydd, Stad Tŷ Hen, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Dafydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac Alder Hey yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i Nain a Taid am ofalu am Aled ac Iwan.

Mae'r teulu a'u ffrindiau yn bwriadu gwneud taith gerdded nodedig ym mis Awst i godi arian i brynu offer i Tŷ Enfys (Llety i rieni yn Ysbyty Gwynedd). Os oes unrhyw un yn fodlon eu noddi, os gwelwch yn dda wnewch chi gysylltu â'r teulu. Diolch yn fawr.

NEWYDDION CÔR Y WAUN. Bu'r Côr yn cymryd rhan mewn cyngerdd yng nghapel Glanrhyd, Dinas ar 14 Mai gyda Siân Gibson, Iwan Parry, Manon Wilkinson ac Ildi Ann Jones, a'r elw yn mynd i'r Capel. Bu'n noson llwyddiannus dros ben gyda chanmoliaeth mawr i Sam am drefnu'r noson, a braf oedd clywed canmoliaeth i'r côr yn ogystal. Mae'n cyhoeddiad nesaf yn y Fictoria. Llanberis ar nos Iau, 27 Gorffennaf i ddiddanu'r ymwelwyr. Os ydych chiâu trefnu noson gyda'r côr, cysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (01286) 650128.



PLANT CHERNOBYL. Mae Gavin, Ceirion a Terry wedi bod ar daith feicio o'r Waun i Fryncir ac yn ôl er mwyn codi cyfanswm o £150 tuag at gronfa plant bach Chernobyl.



PYSGOTWYR. Dic Rowlands o Waunfawr a Dewi Jones o Fethel sy'n bysgotwyr anabl. Mae Dic wedi lawnsio cwch bysgota i'r anabl ar Lyn Baladeulyn yn Nantlle a dwy gwch i'r anabl ar Lyn Trawsfynydd.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)

— rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

YSGOL WAUNFAWR

Roedd dydd Mercher Mehefin y 9 fed yn ddiwrnod bythgofiadwy i enethod blwyddyn 6, gan iddynt gael eu gwahodd i agoriad swyddogol beudy Cae Adda yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Cyd-deithio ar y trên o Fangor gyda'n ffrindiau o'r Antur a chael croeso twymgalon gan staff yr amgueddfa. Roedd yn braf cael gweld y beudy ar ei newydd wedd a theimlo balchder arbennig wrth weld gwaith celf plant yr ysgol yn addurno'r adeilad gwyngalchog. Yr arlunydd Luned Rhys Parry fu yma yn gweithio'n brysur gyda phlant blwyddyn 3 a genethod blwyddyn 6 yn creu modelau o wartheg, llestri, tebot a chadeiriau ar gyfer yr agoriad. Catrin Williams fu'n cydweithio gyda chriw yr Antur ac roedd y cyfuniad o'r modelau a'r baneri yn perthnasu'r holl brosiect gyda phentref Waunfawr. Diolch i'r Cynghorydd Mr Gwilym Williams ac aelodau Cyngor Cymuned Waunfawr am eu rhodd ariannol o £150 tuag at gostau'r trip. Y flwyddyn nesaf bwriedir cynllunio taith i Sain Ffagan i ddisgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 i weld y beudy a Garreg Fawr.

Seiliwyd yr ymweliadau addysgol eraill ar waith thema'r tymor. Bu plant blwyddyn 3 ar ymweliad yn Gelli Gyffwrdd; blwyddyn 5 a 6 yn Amgueddfa Lechi Llanberis; Adran y Babanod yn Fferm y Foel, tra bydd

blwyddyn 4 yn cael taith am Lyn Glaslyn.

Cynhaliodd Adran y Babanod eu taith gerdded nodedig flynyddol yng Nghlynllifon ar Fehefin y 10fed, diolch i flwyddyn 6 am helpu. Bydd yr Adran lau yn cynnal eu taith gerdded nodedig hwy o amgylch Llyn Llanberis Ddydd Llun Mehefin 21ain. Diolch i Mr Ken Latham am gynorthwyo, a diolch arbennig i bawb a gyfrannodd yn ariannol. Bydd elw'r teithiau cerdded yn mynd tuag at brynu Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol yn y neuadd ar gyfer mis Medi. Diolch i bawb a gasglodd docynnau Tesco. Mae gennym dros 25,000 yn y coffrau erbyn hyn a byddwn yn archebu cyfrifiadur newydd i'r ysgol - gwyd iawn.

Hoffem ddiolch hefyd i'n ffrindiau o'r Antur a Mrs Anna Williams am gyd-weithio gyda'r plant i wneud basgedi blodau ar gyfer y Ffair Haf flynyddol.


Dyddiadau i'w cadw mewn cof - Cyfarfod o'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Gorffennaf 1af, Diwrnod Mabolgampau Gorffennaf 6ed.

Daeth yn wyliau haf unwaith eto ac felly yn dro o wyliau ar yr Eco. Felly, ddiwedd Awst y daw'r rhifyn nesaf o'r wasg. Cofiwch ddod â'ch newyddion drwy'r drws. Diolch.

Dymunwn wyliau hapus a braf i bawb. Cofiwch gymryd gofal ar y ffordd, blant.



Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc



B-J-GLAZING
Penisarwaun

Gwydro a Thrwsio Ffenestri
(rhan o fusnes teulu a fu'n gosod gwydr a ffenestri am dros 80 mlynedd)

- Trwsio a newid ffenestri
- Trin unedau gwydr dwbl lle mae'r sêl wedi torri neu yn niwlog
- Dŵr yn treiddio neu ddrafft
- Gloeau a hinges ddim yn gweithio'n iawn
- Amcangyfrif a chynghor yn ddi-dâl
- Gwasanaeth gwydro 24 awr

Ffôn **07984 354783**

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Gyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddoliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Gar neu Fan
Petrol new Diesel
Cerbyd new Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car



AVW **VSTAD CIBYN**
CAERNARFON (01286) 673559



CHWILOTA

HEN LYFRAU COWNT



Yn ddiweddar cefais fenthyca nifer o hen ddogfennau yn ymwneud â Chwm y Glo; yn eu plith, lyfrau cownt, biliau, archebion a derbyniadau am wahanol nwyddau i fusnes yn y pentref. Roedd llawer iawn ohonynt yn ymwneud â phrynu glo. Gyda'r trê, wrth gwrs, y deuai glo i Gwm y Glo, gan fod yr orsaf yno yn un o'r rhai pwysicaf ar y lein o Gaernarfon i Lanberis. Oddi yno yr oedd holl gwsmeriaid Brynrefail, Fachwen, Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwig yn cael eu cyflenwad, a gellir dychmygu faint o brysurdeb oedd yn stesion Cwm yn ddyddiol.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw mai cwmni o Loegr oedd yn anfon glo i'r cwsmer arbennig yma. 'The Wigan Coal and Iron Company' gydag asiant o'r enw Owen W. Roberts yn Bodeuron, Llandudno. Ond roedd John Williams a'i feibion, 2 Arvon Building, Bangor hefyd yn gyfanwerthwyr glo, ac ar un o'u cardiau busnes ceir rhestr o'r mathau gwahanol o lo oedd ar gael ganddynt. Mae'r enwau'n hollol ddieithr i mi, ond efallai eu bod yn dod ag atgofion i rywrai o'r darllenwyr a fu'n ymwneud â'r busnes gwerthu glo. Cynigiai John Williams y canlynol: o Swydd Gaerhirfryn - Wigan Best Winstanley, Clifton Hall Trencherbone, Worsley Mesnes Crown; o Swydd Stafford - Podmore hall, Seven Feet, Burley Main a Beans; ac o ogledd Cymru - Wrexham and Acton Main, Wrexham Brassey a Wrexham Slack. Mae'n bosibl fod rhai o'r enwau yn cyfeirio at y pyllau glo eu hunain. Dim ond ar y Wigan Best Winstanley y ceir pris, sef deunaw swllt y dunnell.

Cwmni arall yn delio mewn glo oedd Jones and Son, Gorsaf Rheilffordd Dinbych. Roedd gan y cwmni hwn ganolfannau yn Rhuthun, Caerwys a Llanellwyr, ac ar wahan i'r glo, roeddent hefyd yn delio mewn 'Bangor slates and general building materials' ac yn asiant i 'Lawes Chemical Manure Company'. Mae un o'u llythyrau ar gael, dyddiedig 23 Ebrill 1888: 'We beg to enclose our price list of coals herein delivered at Cwm y Glo station and shall be glad to receive your kind orders.'

'Arley Cobbles' oedd y math o lo a brynai'r cwsmer o Gwm y Glo, a cheir archebion rheolaidd yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Roedd oddeutu chwech neu saith tunnell o'r glo arbennig hwn yn cael ei brynu'n fisol.

Mae'n ymddangos hefyd nad y cwmni rheilffordd oedd yn berchen rhai o'r wagenni cario glo. Ymddengys oddi wrth rai o'r llythyrau sydd ar gadw mai'r marsiantwr glo ci hun oedd

perchennog y wagenni. Roedd y cwsmer o Gwm y Glo yn amlwg am werthu ei wagen, a cheir ateb gan Owen W. Roberts, Llandudno dyddiedig 28ain o Ebrill 1890 yn nodi penderfyniad Cwmni Wigan Coal and Iron: 'I have written to the colliery as to whether they would make an offer for your waggon No.1, but as it is an old waggon, they are not prepared to offer.' Mae'n mynd ymlaen i nodi y gallai trafferthion godi oherwydd cyflwr y wagen: 'I would advise you to be cautious in running the waggon, because if it really is so bad as described in the Waggon Company's letter, it might break down in transit, and thereby make you liable for any damage it might do.' Yn anffodus, ni all awgrymu unrhyw ateb i'r perchennog: 'I do not know how to advise.' Aeth bron i ddwy flynedd heibio, ac mae'n amlwg fod y wagen wedi dirywio a bod rheidrwydd ar y perchennog i'w thrwsio. Yn wir, erbyn Ionawr 1892 roedd y wagen wedi torri - a diffyg glo ganol gaeaf yn achosi nifer o gwynion gan y gwahanol gwsmeriaid mae'n siwr! Anfonwyd telegram i'r asiant yn Llandudno ar ddydd Gwener: 'Send wagon immediately. Our wagon broke down on the way.' Daeth yr ateb yn ôl gyda thetelegram arall: 'I have ordered a wagon to be sent forward on Monday without fail - too late for today.' Sgwn i sut y gwnaeth y cwsmeriaid ddygymod heb gyflenwad o lo dros y Sul hwnnw? Bu'n rhaid felly i'r perchennog dalu am drwsio'r wagen, ac y mae llythyr dyddiedig 5ed Chwefror 1892 yn darllen: 'Wagon No.1 has been repaired and sent on to the Wigan Coal and Iron Co. today. Thanks for your esteemed favours.' Y 'Midland Railway-Carriage and Wagon Company', Caer oedd yn gyfrifol am ei thrwsio.

Ond nid glo yn unig oedd yn cael ei anfon ar y trê i Gwm y Glo. Ceir cardiau busnes nifer o gwmnïau eraill hefyd, yn eu plith, Morgan & Co. Tobacco and Snuff Manufacturers, Amlwch. Dyma rai o'r mathau o faco Amlwch oedd yn cael ei gynnig: Finc Shag, Limcrick

Roll, Ladies Twist, Bird's Eye, Pride of Wales, Snowdon Mixture, Baco'r Aelwyd, Yr Hen Wlad, Old Watchmen a Baco'r Byd.

Roedd Joseph Armitage, Llundain yn cynnig mathau gwahanol o de, yn enwedig Golden Tips a Kettle Brand. Oes rhywrai yn cofio'r mathau hyn?

Gwerthu blawdiau oedd Cwmni William Prichard, Victoria Mills, Caernarfon, ac yn cynnig amrywiaeth fel Indian Corn (47 swllt am 240 pwys); Thirds, beth bynnag oedd hwnnw neu rheini (32 swllt a chwecheiniog am 200 pwys) a bran (14 swllt a chwecheiniog am 100 pwys). Mae hefyd yn rhestru ffa, pys a cheirch, ond nid yw'n cynnwys prisiau.

Ymhlith y casgliad mae un cerdyn busnes arall yn gwerthu Worcestershire Sauce - gweler llun.

York Terrace, Llanberis

Rai misoedd yn ôl bu trafod ar ddyddiad y stryd hon o dai. Credid fod y stryd wedi ei henwi yn dilyn ymweliad y Dug a'r Dduges Efrog â'r chwarel yn ystod 1899. Cefais gadarnhad o hyn yn ddiweddar pan ddeuthum ar draws cofnod yn cyfeirio at y ffaith i holl weithwyr Chwarel Dinorwig dderbyn hanner coron yn ychwanegol i'w cyflog gan Assheton Smith i nodi'r amgylchiad. Roedd wedi ei ddyddio laf o fis Mai 1899.

Adnewyddu

Daeth un ymateb i erthygl y mis diwethaf ynglŷn â hen adeiladau o fewn y fro. Diolch i Mrs Gwladys M. Jones, Llanrug am ei sylwadau ynglŷn â thair o ysgolion y fro: Glanmoelyn, Bryneryr a Chaeathro. Fel hyn mae'n sôn am Ysgol Glanmoelyn: 'Gan fod fy nain yn eglwyswraig ffyddlon, a dau o'i theulu yn bersoniaid, yno yr aeth fy mam i'r ysgol. A phan ddaethom

ninnau i fyw i Lanrug yn 1917, yno yr euthum innau hefyd. A phlant yr Eglwys oedd y mwyafrif o'r rhai oedd yno bryd hynny. Nid yw Ysgol Bryneryr mor hen, ac yno yr âi plant ardaloedd Ceunant, Tan y Coed, Bryngwyn a Phonrhythallt.'

Mae'n sôn hefyd am yr hen ysgol fach yng Nghaeathro, ac yn tybio mai dim ond i ryw oedran arbennig y byddai plant yn ei mynychu yn y dyddiau cynnar, cyn symud ymlaen wedyn i Gaernarfon - Ysgol Jones Bach, o bosibl.

Waenfawr Glee Party

Roedd y 'Glee parties' yn eithaf poblogaidd ar un cyfnod - math ar gwmni noson lawen mae'n debyg. Deuthum ar draws cofnod am y Waenfawr Glee Party yn diddori yn Neuadd y

HOLBROOK'S
WORCESTERSHIRE
SAUCE

THAT MAKES THE
WHOLE WORLD HUNGRY

Dref, Porthmadog yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Parti wedi ei ffurfio o aelodau Côr Waenfawr oedd y rhain yn ôl pob tebyg, ond prin iawn yw'r manylion sydd gennyf. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn medru rhoi unrhyw wybodaeth amdanynt?

A dyna'r cyfan dros wyliau'r haf. Mwynhewch eich chwilota, ac anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, (Ffôn 01286 673515).

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnall diggers bychain
ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n benwythnos cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau a gobeithio y cawn wneud hynny 'yn wyneb haul llygaid goleuni' y tro hwn. Yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf i mi ymweld â hi oedd yr un a gynhaliwyd yn yr hen bafiliwn yng Nghaernarfon yn 1935. Dwi'n cofio gweld y diweddar Gwilym R. Jones yn cael ei goroni a Gwyndaf yn ennill y gadair.

Mae'r brifwyl wedi bod yn yr hen dref mwy nag yn unrhyw dref arall, ond mae pethau wedi newid a'r wyl wedi mynd yn fwy na llond cae ar gyrion tref. Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon oedd hi yn 1935. Yn 1959 Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a Dosbarth Gwyrfa'i oedd hi, ac erbyn 1979 fe'i gelwid yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch. Bellach rydym yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau a gynhelir ar Barc y Faenol y flwyddyn nesa.

Fe gynhaliwyd un o Eisteddfodau Cenedlaethol Caernarfon yn y castell. Cynhaliwyd hi yn niwedd Awst 1862, ac roedd y tywydd yn arbennig o garedig. Roedd trenau arbennig yn rhedeg o Gaer a Chaergybi bob dydd, a chafwyd Eisteddfod hynod o lwyddiannus.

Roedd meini'r Orsedd ar faes y dre a Clwydfardd yn arwain y gweithgareddau oddi ar y Maen Llog bob bore, cyn gorymdeithio i'r castell lle roedd pabell eang wedi ei chodi ar gyfer yr wyl.

Mae'n syndod sylwi nad oedd fawr o newid ym mhatriwm cystadleuol yr eisteddfod honno i'r eisteddfod bresennol. Seremonïau, Anerchiadau (yn Saesneg, wrth gwrs), cystadlu a chyngherddau. Caledfryn o'r Maen Llog yn cofio am y rhai a gollwyd ers Eisteddfod 1821, ac yn eu plith Dafydd Ddu Eryri, Dewi Wyn, Robert ap Gwilym Ddu a Iolo Morganwg.

Oedd, mi roedd yna gystadlaethau Bandiau yno. Y band buddugol oedd y '2nd Anglesey Artillery'. £8 oedd y wobr yn y brif gystadleuaeth goraw, ac fe rannwyd y wobr rhwng Côr Llanllechid a Chôr Bethel. Da iawn, Bethel.

Dydd Iau oedd diwrnod y cadeirio. Testun y Gadair oedd 'Y Flwyddyn' a'r beirniaid oedd Caledfryn a Gwalchmai. Yr oedd llawer o ddyfalu wedi bod tro wythnosau prŷy oedd i ennill y Gadair, a'r ffefryn oedd Eben Fardd. Roedd 9 yn cystadlu a'r buddugol oedd Hwfa Môn, ac fe'i cadeiriodd gyda'r rhwysg arferol, er mawr siom i Eben Fardd.

Cynhaliwyd cyngherddau mawreddog yn y bafell bob nos o dan arweiniad Llew Llwyf. Roedd yno gynrychiolydd o wlad

Geltaidd, sef Monsieur Christoll Terrien o Lydaw, a chafwyd anerchiad ganddo hefyd.

Dwy gystadleuaeth ddiddorol yn yr eisteddfod hon oedd 'Cystadleuaeth chwarae Harmonium' a 'Chystadleuaeth gwneud model o Sgwner'. Ffaith ddiddorol ynglŷn â'r Eisteddfod hynod hon oedd i tua chant o eisteddfodwyr, gan gynnwys derwyddon, beirdd a chantorion, gychwyn yn syth ar ôl y cyngerdd nos Iau i gopa'r Wyddfa i weld yr haul yn codi. Yn ôl yr hanes cawsant olygfa wych, ac yn yr eisteddfod drannoeth, roedd yna gystadleuaeth englyn byr-fyfyr. Y testun oedd, amserol iawn - 'Codiad yr Haul'.

Mi fydd hi'n costio yn agos i fil o bunnoedd i ni'n dau fynd i Brifwyl Casnewydd eleni. Faint oedd hi'n gostio i fynd i'r eisteddfod yn 1896 tybed? Roedd y seddau gorau (ar y llwyfan) yn 5 swllt y dydd. Tocyn wythnos yn 25 swllt. Roedd yna un amod pendant, sef rhaid oedd cael arian parod - am ryw reswm ni roddid newid wrth y 'bŵths'. Arian parod neu beidio, bu'r Eisteddfod yn llwyddiant eithriadol, a gwnaed clw o dros fil o bunnoedd. Yn sicr dyma un o'r eisteddfodau enwocaf a gynhaliwyd yn yr hen dref.

Yn 1821 fe gynhaliwyd eisteddfod fawreddog arall yng Nghaernarfon, o dan lywyddiaeth Ardalydd Môn. Yn y County Hall y bwriedid ei chynnal, ond gan nad oedd y lle yn ddigon mawr a channoedd yn creu stŵr oddi allan, ar awgrymiad yr Ardalydd symudwyd yr eisteddfod i'r castell.

Er i'r glaw ymyrryd â'r gweithgareddau (awyr agored) ar yr ail ddiwrnod, dywedir fod yna tua thair mil a hanner yn bresennol ar y trydydd diwrnod, a bod rhai wedi dringo'r eiddew ar y tyrrau er mwyn cael gwell golygfa. Roedd prysurdeb anghyffredin yn y dre, a Band Milisia Dinbych yn arwain yr orymdaith i'r castell bob dydd.

Cystadleuaeth ddiddorol iawn yn yr eisteddfod hon oedd cystadleuaeth chwarae'r delyn. Roedd yna unarddeg yn cystadlu a phedwar ohonynt yn ddall. Hefyd roedd 'na hcn wraig 90 oed yn cystadlu ar ganu penillion - Jane Price oedd ei henw, a bu am rai blynyddoedd yn cadw tafarn o'r enw Y Tarw Goch yn y dre.

Roedd Nosweithiau Llawn yn boblogaidd iawn mor bell yn ôl â 1821. Fe'n cynhaliwyd yn nhafarndai y Goat a'r Harp, a'r drwydded i gael mynediad i'r cyfarfodydd hwyliog hyn oedd medru adrodd englyn wrth ddrws y tafarn. Yn ôl yr hanesion roedd y cwmni dechrol yn niferus iawn.

Prifardd yr Eisteddfod oedd

Gwyndaf Eryri, ond prif gymeriad yr eisteddfod oedd yr hen frawd, Dafydd Ddu Eryri - ei eisteddfod olaf reit siŵr, oherwydd ychydig fisoedd yn ddiweddarach fe'i cafwyd wedi boddi yn Afon Cegin ger Llanddeiniolen.

* * *

Côr Bethel yn ennill yn Eisteddfod Genedlaethol 1862. Plant a phobl ifanc Bethel yn dod i'r brig mewn sawl cystadleuaeth ym Mhrifwyl yr Urdd eleni a disgyblion fy hen ysgol - Ysgol

Syr Owen, Caernarfon yn llwyddiannus hefyd. Oeddw, roeddw i'n hynod falch o lwyddiant y ddwy ysgol y bŵm i'n eu mynychu, sawl blwyddyn yn ôl bellach. Dwi'n dal i gael gwahoddiad i Ysgol Bethel yn achlysurol, ac mi fydda i wrth fy modd yn cael mynd yno.

Un peth a'm sobrodd yn Eisteddfod yr Urdd, sef gweld rhai y bŵm i yn eu beirniadu yn blant, bellach yn feirniaid eu hunain yn y Brifwyl. Gwyn eu byd.

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts



NFU Mutual

**AM WASANAETH
YSWIRIANT PERSONOL**

**GALWCH EIN SWYDDFA LEOL
YNG NGHAEARNARFON**

**FFÔN 01286 673377
FFACS 01286 671440**

YSWIRIANT LLEOL A CHYSTADLEUOL AR GYFER

**TAI, CERBYDAU, YSWIRIANT BUSNES
A BUDDSODDIADAU**

**NFU MUTUAL
19 STRYD BANGOR
CAERNARFON LL55 1AT**

Mae'r NFU MUTUAL yn aelod o'r General Insurance Standard Council

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Ty'n Llan Nant Peris

Cinio
dydd Sul
a
Byrbrydau



Bwydydd
Cymreig

Jim ac Anne Cumberton (01286) 870 284

Croeso cynnes bob amser



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac
i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Mae Gari Bee o Ysgol Brynrefail wedi ei enwi yn Gogydd Ifanc Rotari y Flwyddyn 2004 mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd yng Ngholeg Menai, mewn cydweithrediad gyda Chlwb Rotari Gogledd Cymru a Phrifysgol Cymru. Cynhelir y gystadleuaeth, agored i bobl ifanc 12-16 oed, fel menter i hybu a datblygu arlwyio o fewn ysgolion lleol.

Gwahoddwyd disgyblion o ysgolion uwchradd lleol i gyflwyno bwydlenni ysgrifenedig a chostio ar gyfer pryd tri chwrs. Rhoddwyd disgyblion o ysgolion Friars, Botwnnog, Dyffryn Nantlle a Brynrefail ar restr fer i fynychu gornest goginio derfynol. Aeth y rhai a ddewiswyd i Goleg Menai ben bore a chawsant ddwy awr i baratoi a chyflwyno eu pryd tri chwrs ar gyfer dau ar fwrdd wedi ei neilltuo yn y Bwyty Hyfforddi.

Gari Bee oedd y pencampwr ac enillodd darian y buddugwr. Enillodd hefyd fedal am ei bwdin ac enillodd Lowri y wobwr am y cwrs cyntaf gorau.

Bydd Gari Bee yn cynrychioli Gogledd Cymru yn Rownd Gogledd Cymru o Gogydd Ifanc y Flwyddyn. Bydd y fwydlen fuddugol yn cael eu pharatoi a'i gweini gan Gary ym Mwyty Hyfforddi'r coleg ym mis Tachwedd a bydd ei deulu yn cael eu gwahodd yno i fwynhau noson arbennig.

COGYDDION Y DYFODOL!



(O'r chwith): Beirniad, Lowri, Emily, Cathy a Gwen. (Yn y cefn): Yr enillydd - Gary Bee.

Ar 25 a 26 o Orffennaf bydd Apedwar dyn dewr yn ceisio cyflawni her nad yw wedi ei chyflawni o'r blaen, hyd y gwyddom, er mwyn codi arian ar gyfer dwy clusen haeddiannol. Maent yn mynd i geisio ymweld â'r 42 o feysydd pêl-droed sydd yng Nghynghrair yr Alban mewn 24 awr, a thrwy wneud hyn, gobeithio codi miloedd o bunnoedd ar gyfer yr elusennau, yn ogystal â chreu record!

Mark Whitworth

30 oed, cefnogwr Everton. Daw Mark o Runcorn yn wreiddiol, ond bellach mae o'n byw yn Barnsley ac yn gweithio i HSBC yn Sheffield. Mae o wedi ymweld â nifer o feysydd pêl-droed yr Alban eisoes a phan ddywedodd Gregg ei fod am godi mwy o arian ar gyfer 'Ymchwil Arennau' meddyliodd Mark am y syniad Her i'r Gogledd.

Gregg Bellham

34 oed, cefnogwr Rotherham United. Fel Mark, mae Gregg yn gweithio yn HSBC Sheffield. Ers tair blynedd mae Gregg yn derbyn triniaeth dialysis dair gwaith yr wythnos. Pan gafodd Gregg y diagnosis cychwynnol, nid oedd ysbysu llol yn medru cynnig y driniaeth briodol iddo, felly crëwyd y 'Gregg Bellham Trust Appeal' a chasglwyd dros £40,000 i dalu am beiriant dialysis i Gregg ci hun, a phiciriant i Ysbyty Sheffield Northern General yn ogystal. Mae Gregg nawr yn awyddus i godi arian ar gyfer 'Cronfa Ymchwil Arennau Cenedlaethol'.

Richard Clark

27 oed, cefnogwr Sunderland. Mae Richard yn gweithio gyda Gregg a Mark yn HSBC Sheffield. Daw Richard yn wreiddiol o Prudhoc,



Northumberland ond bellach mae o'n byw yn Wakefield. Vchydig iawn o berswâd sydd ei angen ar Richard i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gwyllt, ac nid oedd y syniad hwn yn cithriad!

Euron Hughes

30 oed, cefnogwr Everton. Cymro Cymrag o Seion, Llanddeiniolen

sydd yn athro Saesneg wrth droed yr Wyddfa. Mae o wedi dioddef sawl brwydr ddarostyngol wrth ddilyn Everton, felly bydd gyrru o amgylch yr Alban mewn 24 awr yn hawdd iddo!

Bydd yr arian yn mynd at ddwy clusen haeddiannol, 'Cwn Tywys i'r Dall' a 'Ymchwil Arennau'.

Am wybodaeth pellach cwch i www.scots42tour.co.uk

Mae yna hefyd raffl ar gael gyda gwobrau gwerth eu cael, cost 50c y tocyn. Hefyd bydd yna ocsiwn ar E-bay gydag eitemau wedi cael eu rhoi gan wahanol glybiau pêl-droed, megis pethau fel crysau a pheli wedi eu harwyddo.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

MEHEFIN 2004. Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Cymuned (CC) a gynhaliwyd yn 'Angorfa', Llanberis, nos Iau y 24ain o Fehefin, 2004.

PRESENNOL: Ward Padarn: Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Derek Jones, Helen Sharp, Carys Morris, Douglas Pritchard.

Ward Peris: Neb

YMDDIHEURIADAU: Olwen Gwilym, Fred Owen

CROESO: Croesawyd pawb i gyfarfod cyntaf y Cyngor newydd gan Dei Tomos, y clerc. Etholwyd Helen Sharp yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Cynnig DJ, Eilio CM; a Carys Morris yn is gadeirydd. Cynnig DJ, Eilio EB.

Gwnaeth y Gadeirydd apêl am deyrngarwch a brwdfrydedd mewn perthynas â gwaith y Cyngor, a dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai cydweithio gwell yn y dyfodol rhwng mudiadau allanol a'r Cyngor, gan atgoffa'r aelodau mai nhw oedd yn cynrychioli trigolion y pentref, ac mai er budd yr ardal a'r gymuned yr oedd y Cyngor yn gweithredu, a neb arall.

Adroddwyd fod pedair sedd wag ar gyfer ward Padarn. Daeth nifer o enwau gerbron ac yn dilyn pleidlais cafodd Wendy Hughes, Ken Jones (Blaen Ddôl), Douglas Pritchard a Trystan Thomas eu cyfethol. Mae dwy sedd wag yn ward Peris ond chafwyd dim enwau i law. Bydd rhaid holi ymhellach i weld a ellir cael dau i gynrychioli Nantperis.

COFIO: Cyfeiriwyd at farwolaeth ddiweddar Selyf Hughes, cyn aelod ffyddlon a gweithgar o'r Cyngor Cymuned am sawl blwyddyn. Safwyd am ennys fel arwydd o barch a choffawdwriaeth.

Penderfynwyd anfon gair o gymdymdeimlad at Delyth ei weddw, ac at Olwen Gwilym a gollodd ei thad yn ddiweddar.

CADARNHAU COFNODION: Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Iau y 13eg o Fai, 2004, fel rhai cywir. Cynnig ac cilio EB a CM.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

- Cyfnewidfa Bysiau Dôl y Goeden: Roedd y Clerc wedi cyfarfod Huw Percy, Swyddog Allwedd Gwyrdd Eryri ac wedi cael ar ddeall y byddai'r ganolfan bysiau newydd yn cael ei henwi yn ôl dymuniad y CC, cafwyd croeso brwd i'r newydd.
- Biniau Baw Cwn: Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd (CG) yn nodi iddo dderbyn ein cais am y biniau, a bod 100 i'w rhannu'n fuan rhwng gwahanol ardaloedd, yn cynnwys Llanberis, o fewn y sir. Gofynnwyd i'r Clerc bwyso am eu cael yn fuan.
- Mast Radio Nantperis: Adroddwyd fod cais diwygiedig wedi dod i law am ganiatâd cynllunio ar gyfer y mast

(gweler Cynllunio).

- Grŵp Ieuencid: Mae'r grŵp - Clwb Elidir - yn ffurfiol ar ei draed erbyn hyn, ac yn trefnu gweithgareddau codi arian. Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor yn ystyried cais am arian y tu allan i'r cyfnod arferol o gynnig cymorth ariannol. Gan fod hwn yn achos arbennig, a bod y Cyngor yn awyddus i gynorthwyo datrys problemau ieuencid y pentref, penderfynwyd y byddai unrhyw gais yn cael ystyriaeth ffafriol.

- Eisteddfod Genedlaethol (EG): Daeth llythyr oddi wrth Hywel Wyn Edwards, Trefnydd yr EG yn y gogledd yn diolch, ar ran yr Pwyllgor Gwaith am rodd ariannol y Cyngor. [Mae'r gwaith o ddechrau codi arian at Apêl Llanberis wedi dechrau, adroddwyd i'r Cyngerdd yn Eglwys St Padarn fod yn llwyddiant, a gwnaed elw derbyniol.]

Derbyniwyd llythyrau hefyd oddi wrth amryw o fudiadau eraill yn diolch am y gefnogaeth a estynnwyd iddynt trwy law'r Cyngor gyda grantiau blynyddol. Daeth gair oddi wrth: Timau Pêl-droed Ieuencid Llanberis; Clwb Tai Doliau, Llanberis; Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a De Ynys Môn; Teganfa Gwynedd, Caernarfon; Theatr Bara Caws; Cronfa Goffa R H Owen.

- Y Fynwent: Adroddwyd fod y gwaith o glirio'r pridd a cherrig oedd yn ddolur llygad wedi ei gwblhau. Adroddwyd fod wal pen ucha'r Fynwent sy'n ffinio ar gae Tŷ Isaf wedi ei tharo gan rywun neu rywbeth o'r cae. Roedd gofyn cael codi'r bwlch ac fe fydd y Clerc yn chwilio am amcan bris gan nifer o walwyr. Gwnaed y gwaith gwreiddiol gan 'Nacrod', ond mae'r gweithlu hwnnw wedi ei ddileu bellach. Gofynnwyd hefyd i'r Clerc gysylltu â Meirion Pritchard perchennog Tŷ Isaf i ofyn iddo rybuddio gwersyllwyr rhag mynd yn rhy agos at y wal. Adroddwyd fod carreg goffa go anghyffredin wedi ei chodi yn Y Fynwent yn ddiweddar a hynny heb gysylltu â'r Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r ymgymerydd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o Reol 8, 'nad oes carreg wahanol i'r cyffredin i'w chodi heb ymgynghori yn y lle cynta â'r Cyngor'.

- Llwybr o Nantperis i'r Bwlch: Adroddwyd fod y Clerc wedi cyfarfod a swyddog Allwedd Gwyrdd Eryri i drafod y mater yma. O gosio'r nifer sy'n cerdded y ffordd gul yma, yn drigolion ac ymwelwyr, roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn hen bryd creu llwybr diogel yn cydrcedg gyda'r ffordd.

CAIS AM DRWYDDDED ADLONANT CYHOEDDUS: Nodwyd fod cais wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am

Drwydded Adloniant Cyhoeddus ar gyfer 'Barn Dance' yn Y Ganolfan, Llanberis gan 'Energy 21' nos Sadwrn 17eg o Orffennaf rhwng 6 ac 11eg yr hwyr. Dyma ran o weithgarwch 'Tân y Ddraig, Wythnos o Ddigiwyddiadau Ynni Adnewyddol', a gynhelir yn Llanberis. Doedd dim gwrthwynebiad, nodwyd fod y ddawns yn dod i ben am 11eg yr hwyr.

CEISIADAU CYNLLUNIO:

- a) NP3/15/170: Cais Diwygiedig gan gwmni Airwave MM02Cyf i godi 'dau bolyn pren gyda antena a gosod caban mesur ar lefel tir' ar dir Tŷ Isaf, Nantperis. Roedd lleoliad y mastiau ychydig i'r gorllewin o'r safle blaenorol ond ar sail gwelediad roedd y Cyngor yn gwrthod y cais; ac yn cofio hefyd y consyrn lleol am ddiogelwch y math yma o drosglwyddo. Bwriad y mast yma ydi trosglwyddo a rhoi hwb i'r derbyniad, ond gan nad oes caniatâd wedi ei roi i godi'r mast gan y YHA, er y cafwyd caniatâd cynllunio i'w leoli ar Hostel Gorffwysfa ar ben Bwlch Llanberis, credir ei bod yn gynamserol i roi caniatâd yma. Cynnig CM; Eilio DP.

- b) NP3/15/BT114A: Codi 14 polyn BT ger Hafod Lydan, Llanberis. Rhybudd yw hwn o dan Ran 24 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir). Mater o ymgynghoriad yn hytrach na chais ffurfiol. Serch hynny roedd y Cyngor o'r farn fod yma gyfle i ddaearu'r llinell yma a chael gwared â llinell a nifer sylweddol o bolion sy'n ddolur llygad. Cynnig DP; Eilio EB

- c) NP3/15/172: Sefydlogi erydiad glan Afon Hwch ar dir ger 10 Maes Derlwyn, Llanberis. Dim gwrthwynebiad. Croesawu'r gwaith gan obeithio y bydd mor gydnaws a phosibl â'r lleoliad.

- ch) CO4A/0303/15/LL: Estyniad i ffenestri to (Cais ôl-weithredol) 16, Stryd Fawr, Llanberis. Dim sylw.

- d) CO4A/0345/15/CR: Adfer cyn dy ynghyd â newidiadau ac estyniad i'r to. Dim gwrthwynebiad.

LLWYBRAU:

- Llwybr 20: Mae CG yn bwriadu gwyro rhywfaint ar y llwybr yma ger Llainwen Uchaf. Dim gwrthwynebiad, yn amlwg roedd llinell y llwybr ar y map yn anghywir a bydd y newid yn cwiro'r sefyllfa.
- Adroddwyd fod angen clirio ac agor Llwybr ger Bryn Bedw.
- Adroddwyd fod ceffylau'n rhedeg yn wyllt a bygythiol ar y llwybr sy'n arwain o Mur Mawr i Hafod Lydan.

GOHEBIAETH:

- a) Derbyniwyd llythyr yn gwahodd y Cyngor i ymuno â 'One Voice Wales' a ffurfiwyd i gynrychioli cynghorau cymuned a thref Cymru. Penderfynwyd holi mwy am y manteision o berthyn. Mae'r gost flynyddol bron yn £200.
- b) Gofynnwyd i'r Clerc holi am bris yswiriant i'r Cyngor. Cynnig CM; Eilio EB.
- c) Adroddwyd fod Drafft Cynllun Unedol Cyngor Gwynedd wedi ei dderbyn. Addawodd y Clerc baratoi nodiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Cyngor i ymateb i CG erbyn dechrau Awst.

- ch) Cafwyd llythyr yn gofyn am gynrychiolydd o'r Cyngor ar Fforwm Padarn. Penderfynwyd gadael ethol cynrychiolwyr i wahanol gyrff tan y cyfarfod nesaf, ac i ethol aelodau newydd i Banelli gwahanol y CC.

Cafwyd llythyrau oddi wrth Menter Iaith Gwynedd a Thim gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, a phenderfynwyd gwahodd cynrychiolydd o'r ddau gorff i ddod i gyfarfod o'r Cyngor yn yr Hydref.

UNRHYW FATER ARALL:

- Mae angen torri gwair yn y maes chware ger Y Coed, gofynnwyd i'r Clerc ofyn i DW Lewis sy'n torri'r fynwent roi pris.
- Gofynnwyd pam nad oedd bysiau un cwmni yn mynd i Limbo ar ôl creu'r gylchfan newydd ger Gwesty Fictoria, tra'r oedd eraill yn parhau i fynd yno.

CYFARFOD NESAF:

Mae'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Nos Iau 15ed o Orffennaf am 7 yr hwyr yn Angorfa.



Silver GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I CYNCHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- CWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNEWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffloniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

O'R CYNGOR

Mae'n berffaith wir nad yw amser yn disgwyl am unrhyw un, ble aeth y pum mlynedd diwethaf tybed. Dydi hi ond yn teimlo fel ddod pan gerddais i mewn i Siambr Dafydd Orwig yn adeilad Cyngor Gwynedd Caernarfon ar ôl i'r ardal ymddiried yno i'w cynrychioli. Mae'r pum mlynedd 'nawr wedi ei ymestyn am bedair arall, ac rwy'n addo dal i weithio i adeiladu ar, a cheisio gwella ymhellach, amgylchedd cin bro a'i gwneud yn ardal dachus a delfrydol i fyw ac i ddwyn ein plant i fyny ynddi.

Mae'n wir dweud pan fo ein ffyrdd an pafinau wedi eu hatgyweirio a'u gwynebu i safon uchel, ac ymylon ein ffyrdd yn dachus a graenus, yna mae ein hyder oll yn tyfu.

Yr hen drefn yma oedd fod Bethel, Llanddeiniolen, Rhiwlas a Seion yn un etholaeth ond, oherwydd newid ffiniau o'r 10fed Mehefin eleni, mae Rhiwlas yn awr yn rhan o etholaeth Peniarth. Wrth golli Rhiwlas hoffwn ddatgan fy ngwerthfawrogiad mawr o'r cyfeillgarwch, y cymorth a'r hiwmor a dderbyniais yn y pentref. Diolch yn fawr i chwi oll am roi i fyny â mi dros y pum mlynedd. Rwy'n wir obcithio fy mod wedi bod o gymorth i chwi fel trigolion. Mae llawer wedi ac eisiau eto eu cyflawni. Diolch i chwi oll.

Drwy golli Rhiwlas bydd mwy o amser i ganolbwyntio ar Bethel, Llan a Seion, a cheisio changu ar y gwaith sydd yn barod wedi ei gyflawni. Drwy daflu golwg yn ôl mae cryn dipyn wedi ei wneud o amgylch y lle, ond i gymharu â Bethel roeddwn yn ei chael yn anodd, neu efallai rhwystredig yw'r term cywir, i gael y maen i'r wal i rai sylweddoli fod angen uwchraddio cyfleusterau pentrefol Seion. Dyma sialens fawr dros y blynyddoedd sydd o'm blaen.

Beth felly sydd wedi ei gyflawni yn barod: y cynlluniau sydd wedi hybu diogelwch a chodi ansawdd y pentref yw adeiladu cylchfan Tyddyn Hen; Cynllun ail wynebu strydoedd Saron hyd at Tre Gof; adeiladu pafin ar ymyl ffordd Stryd Bellaf a mannau parcio ger Stad y Rhos; hefyd ail wynebu ffordd wasanaeth cefn Crefmlyn ac, wrth gwrs, y gwelliannau i dai y Crefmlyn ci hunain. Mae'r gwaith yma nawr bron ar ben gyda'r gwaith newydd ddechrau ar y ty olaf.

Yn ogystal â hyn mae gwaith wedi ei wneud i ail wynebu rhan o ffordd Penrhos; pafinau Stad Tan y Ffordd ac Eryri; Twmpathau lawer traffig ar ffordd Tre Gof; Marciau arafu ar y prif ffordd ffordd Penrhos; ail osod arwyddion 30 m.yawr

ger y Cysegr a ffordd Crawia, a hefyd wrth agosau at bentref Seion; gosod cwterydd dŵr gwyneb rhwng Eglwys Llan a'r 'Rynys a hefyd ger gyffordd ffordd Crawia a'r B4366. Mae tri lleoliad arall o amgylch y pentref ble rwy'n hyderus y caiff gwaith o'r fath i'w wneud i trafferthion i'r trigolion cyfagos. Rai misoedd yn ôl dosbarthwyd a chasglwyd 94 o holiaduron drwy Saron, Bro Rhos a rhan o Fro Eglwys i gael barn a ddylid symud ymlaen i geisio cael cynllun i arafu traffig, nid oedd hyn o anghenraid yn golygu twmpathau, ond materion i'w cysidro a fyddai'n dod a theimlad o fwy o ddiogelwch i'r trigolion. Roedd mwyafrif mawr o blaid cael cynllun. Mae gwaith i edrych ar hyn yn awr wedi dechrau yn Saron.

Mae mwy o lwyddiant wedi ei gael i gael pafin ar ochr y ffordd o Tyddyn Andrew Isaf at Erw Bian. Mae'r cynllun yma wedi ei brisio ar bron i £50,000. Bydd rhaglen waith mân welliannau'r cyngor yn cael ei chyhoeddi o fewn yr wythnosau nesaf, a chawn weld wedyn beth yw amserlen y gwaith yma.

Gwaith sy'n barod wedi ei raglennu cyn Ebrill 05 yw ail wynebu'r pafin o Llys Myfyr at fynediad Tan y Cae, ail weirio Tai Bro Rhos ac edrych ar ddiogelwch ar y ffordd o amgylch yr ysgol. Mae'r arwydd newydd ger Ceir Cymru yn rhan gychwynol o'r gwaith yma.

Mater sy'n sicr o greu diddordeb a gwrthwynebiadau yw Cynllun Datblygu Unedol y cyngor. Dyma'r cynllun a fydd yn rheoli defnydd tir i adeiladu yn y sir am y pymtheg mlynedd nesaf. Yn wahanol i'r cynllun presennol, sydd wedi bod mewn lle ers blynyddoedd lawer, bydd yr un sy'n nawr yn cael ei awgrymu yn cael ei adolygu'n rheolaidd bob pum mlynedd. Mae'n fwriad hefyd gwneud amod lleol, ble bydd yn bosib i rai sydd eisiau sefydlu cartrefi yn ei bro enedigol fedru gwneud hynny, gyda amodau, pan mae'n amhosib iddynt gystadlu â phrisiau'r farchnad agored. Mae sylwadau ar y cynigion yma i fod wedi eu hanfon i'r cyngor erbyn 31 Gorffennaf eleni.

Mae'r mapiau yn fy meddiant a fy mwriad yw trefnu amser i'w harddangos yn y Neuadd Goffa a Festri Capel Seion cyn 10ed Gorffennaf. Neu wrth gwrs mae croeso i unrhyw un ddod draw i 11 Stad Eryri yw astudio: ffôn 070 666.

Bwriadaf hefyd, yn yr wythnosau nesaf, gynnal cyfarfod cyhoeddus yn y ddau bentref i gael syniadau ar y gwaith yr hoffech imi ganolbwyntio arno dros y blynyddoedd nesaf. Un peth adeiladol rwy'n teimlo y dylwn

ei gyflawni yw cynnal cymhorthfeydd yn rheolaidd, un ai yn wythnosol neu'n fisol yn y ddau bentref. Buaswn yn falch o dderbyn eich sylwadau.

Wrth gau, llongyfarchiadau i Adran Urdd Bethel am ei llwyddiant arbennig yn Eisteddfod Môn. Adlewyrchu'r gwaith called sydd ynghlwm â'r holl weithgareddau.

Llongyfarchiadau i dimau pêl-droed y pentref: tîm yr oedolion, wrth gwrs, am dymor hynod o lwyddiannus yn sgubo popeth bron o'u blaen, yn gwpanau a phencampwriaeth y

gynghrair. Rwy'n edrych ymlaen am Gynghrair Gwynedd ymhén ychydig wythnosau. Cae yn Bethel rŵan hogia. Rwy'n mynd i oed ac nid yw Cae'r ysgol yn lle i fagu gwaed pan mae gwynt y dwyrain yn dangos ei ddannedd.

Hefyd y Tîm Ieuenctid, sy'n gweithredu'n wyrthiol ac y dal i gasglu tlysau. Mae'r llengoedd o bobl ifanc yn werth eu gweld, mae Cae Coed Bolyn yn gredyd i chwi oll.

Huw Price Hughes
Cynghorydd Plaid Cymru
Bethel, Llan a Seion

Taith Haf BBC Radio Cymru a Planed Plant S4C 2004

Y DAITH HAF AR RAS I ODRE'R WYDDFA

Am y tro cyntaf, bydd **Planed Plant** a BBC Radio Cymru yn mynd ar daith gyda'i gilydd trwy Gymru. Gyda'r gorau o sêr y byd teledu a radio yn rhannu llwyfan mewn 11 lleoliad, fe fydd haf 2004 yn dipyn o sioe!

A thros benwythnos 23-24 Gorffennaf bydd y Daith yn stopio yng nghyffiniau Bro'r Eco, gan ddod yn rhan o fwrlwm gweithgareddau Gŵyl Caernarfon ar y dydd Gwener (23 Gorffennaf) ac yna Ras Yr Wyddfa ar y dydd Sadwrn (24 Gorffennaf).

Trefnir amserlen lawn o ddigwyddiadau gydol y dydd ar lwyfan y Daith Haf o 11.00 y.b tan 5.00y.p gyda thriawd **Triogl** yno i ddiddanu y plant bach a chyfle i ganu a dawnsio i gancuon diweddaraf eu CD newydd.

Bydd cyflwynwyr **Planed Plant** yn perfformio eu sioe arbennig a bydd gwledd o gerddoriaeth gan Max N, Meirion Gwilym a Gogz. Bydd cyfle hefyd i gyfarfod â rhai o hoff gymeriadau **Planed Plant Bach** gan gynnwys Sali Mali, Sam Tân, SuperTed a chymeriadau bywiog cyfres y BBC, y Bobinogi.

Mae Eleri Twynog, Pennaeth Marchnata S4C, yn croesawu y bartneriaeth newydd yma gyda Radio Cymru ac yn edrych ymlaen i gydweithio ar y Daith Haf: 'Byddwn yn teithio i bob cwr o'r wlad gan gyfarfod â channoedd o blant a'u teuluoedd sy'n wylwyr **Planed Plant** ac yn

wrandawyr cyson ar Radio Cymru. Mae'r daith hon yn caniatáu i ni fynd â'r adloniant at eu steipan drws nhw, gyda rhywbeth at ddant pawb.'

Ateir hyn gan Aled Glynne Davies, Golygydd Radio Cymru: 'Mae Radio Cymru wedi credu'n gryf ers rhai blynyddoedd ei bod hi'n hollbwysig inni fynd â'n rhaglenni ni allan i ganol y bobl. Yn sicr, dydi eleni ddim yn eithriad. Rydan ni yn Radio Cymru yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gydweithio'n agos ag S4C - gan ddod â chryfderau'r ddau dim at ei gilydd a chreu sioeau da, nid yn unig i'r bobl fydd yn dod draw i'n gweld ni ond i'r rheini a fydd yn gwrandao ar y radio.'

Dyma fanylion y Daith Haf:

Gwener, 23 Gorffennaf:

Gŵyl Caernarfon, Caernarfon;

Sadwrn, 24 Gorffennaf:

Ras Yr Wyddfa, Llanberis;

Iau, 12 Awst: Sioe y Siroedd Unedig, Caerfyrddin;

Sadwrn, 14 Awst:

Sioe Llanfyllin, Llanfyllin;

Mawrth, 17 Awst:

Sioe Sir Benfro, Hwlfordd;

Sadwrn, 21 Awst:

Sain Ffagan, Caerdydd;

Mercher, 25 Awst: Sioe Sir

Meirion, Llandrillo ger Corwen

Llun, 30 Awst:

Carnifal Aberaeron, Aberaeron.

Am fwy o fanylion am **Daith Haf BBC Radio Cymru a Planed Plant S4C**, cysylltwch â Gwifren Gwylwyr S4C ar 0870 600 4141.

Gwasanaeth Therapi Massage yn y Gymuned

oddi wrth THERAPYDD COFRESTRDIDG FHT



APHORIA
Remedial Therapy
Aromatherapy



Abigail Pritchard MIGHT, IIHHT

Ffôn: 0798 919 2746

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Daniel Orritt, 7 Blaen y Ddôl, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddiweddar ar 20 Mai.

MARWOLAETH. Bu farw Alwyn Roberts, gynt o Sŵn y Gwynt, Padarn Road, ar 14 o Fai yn Gorton, Manceinion. Roedd yn 77 mlwydd oed ac yn frawd i George

Henry, Arfon ac Eifion Wyn Roberts.

Dymuna'r teulu ddiolch am bob datganiad o gydymdeimlad a dderbyniwyd.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cynhaliwyd y Cyfarfod o'r uchod ar y 3ydd o fis Mehefin. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan Ralph Jones a chyflwynodd

CYSTADLEUAETH PÊL-DROED IEUENCTID. Ar ddydd Sadwrn, 29 Mai cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-droed ieuencid ar Gae'r Ddôl o flaen tyrfa gref.

Cyfyngwyd y cystadlu i blant Llanberis, a gwobrwyd y timau yn y rownd derfynol, dan 7/9 a 15 oed, gyda medalau wedi eu cyflwyno gan Westy Padarn Lake.



YMWELD Â'R GÊM RYNGWLADOL. Cafodd aelodau timau pêl-droed dan 9, 11, 13 a 15 oed y pentref daith i weld tîm pêl-droed Cymru yn chwarae yn erbyn tîm Canada ar y Cae Ras, yn

Wrecsam, ddydd Sul, 30 Mai.

Gan y teimlwyd eu bod yn rhy ifanc i fynd ar y trip yma, derbyniodd pob un o aelodau'r tîm dan 7 oed dlws gan y pwyllgor.



Ann P Jones y gŵr gwadd, sef Mr J. Elwyn Hughes, Bethel, a roddodd sgwrs ar hanes Bro Caradog Prichard, sef bro ei febyd yn Nyffryn Ogwen. Aeth â ni o gwmpas yr ardal drwy gyfrwng sleidiau ardderchog iawn yn llawn hiwmor ar gymeriadau ardal chwarelyddol. Diolchwyd iddo ef, ac i Mrs Beth Owen a Mrs Heulwen Lewis am y banded a'r raffl gan y Parchg G Williams. Yr enillydd oedd Nancy Jones.

YSGOL SUL CAPEL COCH. Ddydd Sul, Mehefin 6 aeth plant, athrawon a rheini Ysgol Sul Capel Coch am bicnic i'r Amgueddfa Lechi yn Gilfach Ddu. Cafodd y plant sgwrs dda gan Mrs Moreen Lennon, Plastirion, ar hanes capeli ac eglwysi Llanberis ac yr oedd ganddi luniau diddorol o rai o'r capeli i'w dangos iddynt. Rhoddodd hefyd olwg i'r plant ar waith yr Ysgolion Sul pan oedd hi'n iau er mwyn iddynt allu cymharu ein Hysgol Sul heddiw â hwy. Diolch yn fawr iawn iddi am ddod atom. Wedi'r sgwrs roedd pawb wedi dod â'i bicnic i'w fwyta yn yr haul braf. Roedd yn Ysgol Sul gwahanol i'r arfer y diwrnod hwnnw, ac yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Diolch yn fawr iawn i Mr Dafydd Roberts a staff yr Amgueddfa am eu croeso i ni.

TRIP YR YSGOL SUL. Bydd Trip yr Ysgol Sul Capel Coch yn mynd i Sw Caer ddydd Sadwrn, Gorffennaf 10, a bydd cyfle i rai fynd i Gaer i siopa os nad ydynt am fynd i'r Sw. Rhwch eich enw i'r Parchg John Pritchard mor fuan a phosibl os ydych am ddod ar y trip. Bydd croeso i rai ymuno â ni ar y trip os bydd lle.

DIOLCH. Dymuna John Davies, Tyddyn Eilian, (Modurdy'r Wyddfa), ddiolch yn fawr iawn am bob caredigrwyd a ddangoswyd ato yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd rai wythnosau'n ôl erbyn hyn. Diolch am bob cymorth meddygol ac am bob caredigrwyd o du ffrindiau a chymdogion a theulu.

DIOLCH Dymuna'r Gynghorydd Trefor Edwards ddiolch yn fawr iawn i holl etholwyr Llanberis a Nant Peris am eu cefnogaeth yn ystod yr etholiad.

ETHOLIAD CYNGOR GWYNEDD. Dymuna Carys Morris ddiolch i bawb a'i cefnogodd yn yr etholiad diweddar ac i bawb fu'n cynorthwyo yn ystod yr ymgyrch ac ar y diwrnod.

CLWB ELIDIR. Dyma'r enw a roddwyd ar glwb a sefydlwyd yn ddiweddar i drefnu gweithgareddau ieuencid yn Llanberis. Yn barod cafwyd pêl-droed, rownderi a gwersi dawnsio disgo yn y Ganolfan.

Agorwyd cronfa i gynnal y gweithgareddau hyn, a'r gobaith ymhen amser yw casglu digon o arian i gael parc sglerio a chae chwarae aml-bwrpas yn y pentref. Byddai'r clwb yn ddiolchgar iawn am unrhyw gymorth ariannol a dderbynnir drwy law'r trysorydd, Mai, yn Swyddfa'r Post, Llanberis.

Hefyd mae angen gwirfoddolwyr i helpu gyda'r gweithgareddau, ac os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Siân ar 872782.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2005. Cafwyd cychwyn ardderchog i'r apêl gyda chyngerdd o ddoniau lleol yn Eglwys Sant Padarn. Yn cymryd rhan roedd Côr Meibion Dyffryn Peris, Lleisiau Lliwedd, Elin Mai, Tomos Parry a phlant Ysgol Dolbadarn gyda Dei Tomos yn arwain y noson. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran ac i bawb fu'n cynorthwyo ar y noson.

Y gweithgaredd nesaf fydd bingo yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Wener, 30 Gorffennaf am 7.30 o'r gloch.

FFRAINC 2 LLOEGR 1

Ei ddwy gie oedd yn ddigon - o'u rhwydo

Gwaredodd obeithion.

Yn iasol chwalwyd Saeson, 'Le bif' sydd nawr yn 'le bon'.

Côr Meibion Dyffryn Peris

Y mae'r Côr uchod angen aelodau newydd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r gymdeithas hapus hon, dewch am sgwrs i'r Mynydd Gwefru, Llanberis, ar nos Lun am 7.30 o'r gloch neu cysylltwch â **Hefina Jones** ar (01286) 871006

Jones

Contractwyr Trydan

Goleuadau Argyfwng ac offer Larwm Tân

Gwasanaeth i Cymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan Lloeddol yr Urdd a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

YR YSGOL

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol fu'n cystadlu'n llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Mae'r athrawon i gyd yn hynod falch ohonynt.

Bore dydd Mawrth ar ôl y gwyliau daeth Y Parch Dafydd Hughes i gymryd gofal o wasanaeth y plant. Cafwyd neges drwy stori amserol iawn ganddo.

Bu Mr Gwyn Williams, Mr Eifion Jones a Mr Gareth Jams yn brysyr yn hyfforddi'r plant hyn ar gyfer twrnament rygbi a gynhaliwyd yng Nghaernarfon. Gwnaeth y plant yn dda iawn, ond colli cyn cyrraedd y rownd derfynol fu eu hanes. Mae'r ysgol yn hynod ddiolchgar i'r tadau am roi o'u hamser.

Dydd Mercher, 16eg o'r mis cafwyd tywydd perffaith ar gyfer diwrnod mabolgampau'r ysgol. Bu cystadlu brwd rhwng y timau Iolen, Garth a Cadnant. Iolen fu'n fuddugoliaethus eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Cyflwynwyd y darian i Elena Owen a Louis Williams, capteiniaid Iolen. Eleri Evans enillodd y mwyaf o farciau o'r genethod hyn a Dylan Coles o'r bechgyn hyn. Natalie a Caio enillodd y mwyaf o farciau yn yr adran iau.

Mae'r ysgol wedi bod yn brysyr yn casglu noddwyr ar gyfer sgipio nodedig. Bydd rhan o'r arian a gesglir yn mynd i'r ysgol a rhan tuag at Ymchwil y Galon. Defnyddio teganau mawr am gyfnod oedd tasg y plant meithrin, ac fe'u noddwyd yn hael i wneud hynny.

Wedi eu holl waith caled drwy'r flwyddyn mae'r plant yn edrych ymlaen i'w triplau blynyddol. Dydd Iau, 24ain, aeth y babanod i'r Seaquarium yn Rhyl. Ar yr 8fed o Orffennaf bydd yr adran iau yn ymweld â Blue Planet, ger Caer.

Dydd Gwener, 25ain o'r mis bydd yr adran iau yn ymweld â Theatr Gwynedd i weld y sioe 'Llew Lletchwith', ac yn y prynhawn yn cerdded ar hyd y llwybr cyhoeddus i Eglwys Llanddeiniolen i gael sgwrs gan y ficer am ei gwaith.

Dydd Llun, 28ain, bu plant blwyddyn 6 ar eu hymweliad olaf ag Ysgol Brynrefail cyn trosglwyddo yno ym mis Medi. Edrychwn ymlaen am eu sioe ddiwedd blwyddyn a gynhelir ar 6 Gorffennaf. Rwy'n siŵr fod eu rhieni yn edrych ymlaen i weld eu plant yn perfformio am y tro olaf yn Ysgol Bethel.

Nos Fawrth, 6 Gorffennaf, cynhelir Ffair Haf yr ysgol. Yn ogystal â stondinau amrywiol a chastell neldio, uchafbwynt y noson mae'n siŵr fydd gêm bêl-droed rhwng y tadau a thîm o 'Selebs'. Brai iawn oedd gweld cynifer o'r tadau mor awyddus i chwarae. Mae'n argoeli i fod yn noson hwyliog iawn.

Mae diwedd blwyddyn ysgol yn gyfnod o ddioladau gymylog i'r plant a'r athrawon. Rhaid ffarwelio â phlant blwyddyn 6 a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn yr Ysgol Uwchradd ym mis Medi.

Eleni byddwn hefyd yn ffarwelio â Mrs Helen Evans, athrawes Meithrin a Derbyn. Dymuniadau

gorau i Mrs Evans i'r dyfodol. Bydd colled fawr ar ei hôl yn yr ysgol.

CLWB BRO BETHEL. Mae'r Clwb wedi bod yn brysyr iawn yn ddiweddar. Ar 4 Mai cafwyd y wibdaith flynyddol, yn cychwyn o'r ysgol am 9.30 gan aros ym Mhorthmadog am baned ac ychydig o siopa cyn mynd ymlaen i'r Bermo am ginio. Ar y ffordd yn ôl drwy Flaenau Ffestiniog a Dolwyddelan cafwyd paned arall ym Melin y Coed cyn dod adre.

Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac roedd diolchiadau Goronwy Jones i Nerys am drefnu'r daith yn adlewyrchu teimladau pawb.

Ddydd Mawrth, 8 Mai cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Robin Jones, oedd yn cyfeirio at y gefnogaeth y gall yr henoed ei gael, yn arbennig cloeon, larymau ac yn y blaen i rai sy'n byw ar eu pen eu hunain. Diolchodd Ieuan i Robin am ran yr aelodau.

Mae dyddiad gweithgaredd Gorffennaf eto i'w drefnu ond ceir sicrwydd y bydd pawb wrth eu bodd.

ADRAN YR URDD. Daeth llwyddiant mawr i'r Adran a'r Uwch Adran yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Môn yn ddiweddar. Bu'n wythnos hynod o brysyr i sawl un a bu'n rhaid codi'n fuan iawn ar gyfer y rhagbrofion. Ond roedd y cyfan yn brofiad gwerth chweil a braf oedd gweld cymaint o'n haelodau yn mwynhau eu hunain ar lwyfan y Genedlaethol. Tipyn o gamp.

Cafwyd 4 gwobr gyntaf: y Parti Deulais dan 12 oed, y Grŵp Offerynnol dan 12 oed, y Parti Cerdd Dant dan 15 oed a Gwilym Rhys ar yr Unawd Pres dan 12 oed. Daeth y grŵp pop, 'logwrt Pinc', a'r grŵp dawnsio disgo dan 15 oed, 'Angylion Kelly', yn ail. Daeth Aaron Gwyn a Hanna yn fuddugol yn y cystadlaethau celf. Cafodd Gethin, Aled ac Aaron ail am eu fidio. Hefyd braf oedd clywed am lwyddiant un o'n cyn-aelodau yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama. Llongyfarchiadau i Bethan Williams am ddod yn drydydd am ysgrifennu drama. Roedd y côr dan 12 oed, yn ôl y feirniadaeth, y nesaf at y llwyfan ar ôl canu yn arbennig o dda yn y rhagbrawf am 8 o'r gloch y borel. Llongyfarchiadau mawr i'r plant i gyd am eu gwaith caled dros y misoedd diwethaf. Rydym yn gobeithio cyflwyno medal i bob plentyn a fu'n llwyddiannus yn y Genedlaethol.

Ni fyddai'r cyfan wedi bod yn bosib heb yr hyfforddwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn hyfforddi'r plant. Diolch yn fawr i bob un ohonynt, yn rhieni a ffrindiau.

Cafodd trigolion y pentref gyfle i glywed y plant mewn cyngerdd yn Ysgol Bethel nos Fercher, 27 Mai. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw a diolch i Maldwyn John am arwain y noson mor hwyliog. (Lluniau gyferbyn)

Ar ôl y steddod daeth yn amser mabolgampau ac aeth criw o blant i gystadlu yn Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon nos Iau, 17

Mehefin. Llongyfarchiadau i Einir Evans am ddod yn gyntaf yn y ras redeg i ferched dan 12 oed ac i Eleri Evans ar ddod yn 2il yn y naid hir i ferched dan 12 oed. Daeth tîm ras gyfnewid y bechgyn dan 12 oed a thîm ras gyfnewid y genethod dan 12 oed yn drydydd. Da iawn chi. Pob lwc i Einir ym mabolgampau'r Sir ym Mangor ddiwedd y mis.

Aeth criw o blant blwyddyn 5 a 6 am benwythnos i Lan Llyn, Y Bala, Mehefin 11-13. Cafodd pawb amser wrth eu bodd a mwynhau yr amrywiol weithgareddau. Diolch i Iorwerth, Maldwyn ac Eifion am edrych ar eu holau.

Dyna flwyddyn arall drosodd. Bydd cyfarfod cyhoeddus i rieni ym mis Medi pryd y byddwn yn trefnu gweithgareddau am y flwyddyn nesaf. Dewch i gefnogi.

Bydd dyddiad yn nes at yr amser.

PRIODAS AUR. I longyfarch Goronwy a Mair Jones, Bethel ar achlysur dathlu eu Priodas Aur

Iddynt, aros mae'r freuddwyd - o gynnal

Y gwanwyn a blannwyd.

O'r gofal hael ar aelwyd

Daw gwres haf, pan gaeaf gwyd.

DIOLCH. Dymuna Goronwy a Mair Jones, Cilan, ddiolch o galon am y cardiau, rhoddion a'r dymuniadau da ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 5 Mehefin.

GRADDIO. Llongyfarchiadau i Rhian, merch Delyth a Morlais Williams, Arfon House, ar ennill i gradd yng Ngholeg y Brifysgol Bangor yn ddiweddar.

DYMUNIADAU gorau am adferiad buan i Morlais Williams, Arfon House a David John Roberts, Tan y Buarth, y ddau ar hyn o bryd yn

Ysbyty Gwynedd, Bangor.

PWYLLGOR APEL EISTEDDFOD ERYRI. Ar ran y pwyllgor yng nghylch Bethel, Seion a Llanddeiniolen diolchaf am y gefnogaeth barod. Cafwyd ymateb da i'r casgliad o dŷ i dŷ, a nifer hefyd wedi llenwi y ffurflenni treth.

Bu'r wythnos weithgareddau yn llwyddianus. Diolch i Bet a Seiriol am arwain y daith nos Lun. Cafwyd ymateb da i'r cwis yn y Bedol nos Fawrth. Diolch i Kevin am ei gefnogaeth. Llongyfarchiadau i'r enillwyr sef tylwyth Collwyn - er ni ddatgelwyd faint o gyfraniad ymyneddol wnaeth y 'Godfather' o'i sedd Val Doonican. Er y noson stormus, mentrodd 10 tîm a chefnogwyr i gae Coed Bolyn ar gyfer y gystadleuaeth pêl-droed 6 pob ochr. Cafwyd chwarae safonol iawn, a thipyn o sioc yn y rownd derfynol. Curodd tîm ieuanc Ian Morgan dîm yn cynnwys rhai o aelodau tîm Bethel o 1-0. Seren y noson oedd Aaron Whitmore - Christiano Ronaldo y pentref.

Yn yr un modd cafwyd noson hynod o lwyddianus i'r plant iau ar y nos Wener.

Diolch arbennig i aelodau Merched y Wawr am ddarparu lluniaeth yn ystod y gweithgareddau, ac i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd. Ar hyn o bryd mae rhyw £1,500 yn y coffrau. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod ym mis Medi i ddarparu rhaglen ar gyfer misoedd y gaeaf.

Os oes unrhyw un am gyfrannu, cysyllter â mi neu Kathy Bell, y trysorydd.

RICHARD LLWYD JONES
(Cadeirydd y Pwyllgor Apêl)

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

**Blodau
Racca**

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silo
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r tro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Sefydliad Prydeinig y Galon

Yn dilyn casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar, er budd Sefydliad Prydeinig y Galon, cylch Arfon, casglwyd fel a ganlyn:

Penisarwaun:	£66.00
Bethel:	£324.90
Llanddeiniolen:	£64.83
Llanrug:	£522.54
Waunfawr:	£280.66
Caethro:	£79.48
Rhyd Ddu:	£51.75
Deiniolen:	£386.28
Dinorwig:	£54.53
Nant Peris:	£38.48
Llanberis:	308.04

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogach.



logwrt Pinc: Cân Ysgafn: ail.



Parti Cerdd Dant dan 15 oed: cyntaf.



Grŵp Offerynnol dan 12 oed: cyntaf.



Parti Deulais dan 12 oed: cyntaf.



Angylion Kelly: Grŵp Dawnsio Disgo dan 15 oed: ail



Gwilym Rhys: cyntaf ar yr Unawd Pres dan 12 oed.

CYFEILLION YSYTY GWYNEDD

Cynhailwyd Cyfarfod Blynnyddol Cyfeillion Ysbyty Gwynedd ar 11 Mai yn yr Ystafell Bwyllgor yn Ysbyty Gwynedd o dan gadeiryddiaeth y llywydd, Mrs A. M. Pritchard MBE. Gŵr gwadd y nosoon oedd Mr Derck Owen o Radio Ysbyty Gwynedd. Rhoddodd amlinelliaid o ddatblygiad y Radio dros y blynnyddoedd gyda stracon diddorol am ddigwyddiadau a'r newidiadau sydd wedi cymeryd lle.

Etholwyd Mr Joe Hughes o Fethesda yn Gadeirydd y Cyfeillion yn dilyn ymddcoliad Mrs Dorothy Proudley Williams. Rhoddodd Mrs Proudley Williams 13eg blwyddyn o wasanaeth fel Cadeirydd ag oddeutu 20ain fel Ysgrifennydd i Bwyllgor y Cyfeillion. Diolchodd Mr Hughes iddi am ei gwaith cydwybodol ac ymroddgar dros y blynnyddoedd.

Yng nghyfarfod Mehefin etholwyd y swyddogion canlynol: Is Gadeirydd: Mrs Mair Griffiths; Trysorydd: Mr R Shearer; Is Drysorydd: Mrs Wendy Jones; Ysgrifennydd: Mrs Meryl W Read; Ysgrifennydd Cofnodion: Mrs Ann Ll Roberts.

Cafwyd adroddiad ar weithgareddau codi arian a gynhaliwyd yn ddiweddar. Codwyd £280 yn y Ffair Lestri a gynhaliwyd yn y Ganolfan ym Mhenrhosgarnedd a thalwyd diolch i Mrs Janice Owen am gynnal y noson. Enillwyd y

Lamp Fwrdd, 'Ainsley' gan Mr L Jones, Y Groeslon. Cododd Mr Rhys Owen £1,370 yn rhedeg marathon Llundain a chafwyd rhodd o £350 gan Gôr Meibion Dinas Bangor.

Cytunwyd i gefnogi cais Radio Ysbyty Gwynedd am offer trydanol gwerth £3,400.

Ar 19 Mehefin cynhaliwyd Bore Coffi ym Mhorthaethwy a gwnaed clw o £175 fydd yn mynd tuag at Gronfa Gwyntyllydd Symudol i'r Uned Gofal Arbennig fydd yn costio tua £12,000. Tynnwyd y Raffl am y ddol sydd wedi bod ar Fwrdd Gwerthu y Cyfeillion yn Ysbyty Gwynedd, a'r enillydd oedd Miss Dilys Griffiths Bangor.

Taith gerdded o amgylch ardal Llandegai fydd yr ymgyrch codi arian nesaf ar 2 Gorffennaf o dan arweiniad Mrs Dorothy Shearer.

Diolch yn fawr iawn i baw sydd wedi cefnogi'r amryw weithgareddau dros y flwyddyn, mae'r arian i gyd a godwyd gan y Cyfeillion yn cael ei ddefnyddio i brynu offer er budd y cleifion yn yr Ysbyty. Y mae'r peiriannau canlynol, sydd werth £43,950 wedi, neu yn cael eu prynu yn y dyfodol agos:-

Monitor Arwyddion Allweddol - £3,950;

Peiriant Trosglwyddo Plasma gwaed i'r Uned Arennol - £20,000;

Peiriant Oncoleg - £8,000;

Gwyntyllydd Symudol i'r Uned Gofal Arbennig - £12,000.

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer hclacth o luniau ar werth • Dewis cang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW

KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Coleg Menai yn ymateb i ofynion y Gymdeithas

Mae canolfan Coleg Menai ar y Maes yng Ngarnarfon yn cynnig dyfodol disgleiriach i'r bywyd cymdeithasol ac economaidd yn yr ardal. Dylai dysgu fod ar gael i bawb ac mae Coleg Menai wedi ceisio sicrhau fod hyn yn wir.

Mae'r ganolfan ymestyn ar y maes yn llawn cyfarpar gydag ystod llawn o gyfleusterau addysg a hyfforddiant, gan gynnwys canolfan taro heibio Technoleg Gwybodaeth. Mae'r mentrau a hybir yn y ganolfan yn cynnwys rhoi cyfleon ar gyfer gwella sgiliau sylfaenol, Celf a Dylunio a Mynediad i Addysg Uwch. Mae yna amrywiaeth o gymwysterau arloesol ar gael, gan gynnwys Gofal am Gwsmeriaid, Marchnata, ac Adeiladu Tim. Mae yna hefyd ystod eang o ddosbarthiadau nos o Aromatherapi i Beintio Dyfrliw, i amrywiaeth o raglenni i wella sgiliau Cyfrifiadurol yn ogystal â nifer o gyrsiau iaith gan gynnwys cymwyster y British Sign Language.

Ond nid dyma'r unig ddarpariaeth, mae Coleg Menai Caernarfon hefyd yn cynnig cyrsiau mewn nifer o ganolfannau craill, gan gynnwys yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Llanberis, Bethesda a Deiniolen, yn Neuadd Goffa Llanrug. Tŷ Cegin ym Mangor ac mewn siop barhaol y coleg ym Mhenygroes. Yn wir, un o'r cyrsiau mwyaf cyffrous a phoblogaidd eleni yw Hanes Lleol yn Ncniolcn gyda thros 18 wedi cofrestru!

Mae'r coleg yn falch iawn o'r staff sydd yn dysgu ar yr ystod eang o gyrsiau. Maent o'r radd flaenaf ac yn ymrwymo i helpu oedolion sy'n ddysgwyr i gyflawni eu potensial. Mae'r coleg yn arbennig o falch o Carol Fielding, tiwtor iaith Arwyddion (BSL) y coleg.



Signlang 4. Mae'r coleg yn cynnig cwrs Iaith Arwyddion (British Sign Language). Tiwtor y cwrs yw Carol Fielding a lwyddodd i dderbyn cydnabyddiaeth am ymrwymiad a rhagoriaeth wrth ennill gwobr gan NIACE Dysgu Cymru am Diwtor y Flwyddyn.

Llwyddodd i dderbyn cydnabyddiaeth am ymrwymiad a rhagoriaeth wrth ennill gwobr gan NIACE Dysgu Cymru am Diwtor y Flwyddyn.

Sharon Owen, yn wreiddiol o Lanberis, yw Rheolwr Dysgu Gydol

Oes Caernarfon. Dywedodd,

'Mae dysgu ar gyfer pawb ac rydw i yn ei wneud yn flaenoriaeth i annog oedolion i ddychwelyd i ddysgu er mwy datblygu ac uwchraddio eu sgiliau, diddordebau a'u hobiau. Credaf ei bod hi'n hanfodol i ymateb i ofynion y gymdeithas ac yn ddyletswydd i gynnig y ddarpariaeth orau.'

'Mae angen cefnogaeth y gymuned arnom ni er mwyn parhau'r ddarpariaeth ffrwythlon sydd ar gael ar hyn o bryd'

Swyddog Arfon yw Medwyn Williams,



Medwyn Williams. Mae Medwyn Williams, Swyddog Arfon, yn credu fod dysgu gydol oes yn bwysig a bod hyblygrwydd Coleg Menai yn ei wneud yn ddewis delfrydol i unrhyw un.

'Credaf fod dysgu gydol oes yn bwysig ac mae hyblygrwydd y coleg yn ei wneud yn ddewis delfrydol i unrhyw un. Os oes digon o niferoedd, mae'n bosib i ni greu cwrs ar eich cyfer, boed yn y papur a'i peidio.'

'Rydyn ni hefyd wrth ein bodd yn mynd i siarad gyda grwpiau yn y gymuned fel Merched y Wawr a chlybiau cinio er mwyn sôn am ein darpariaeth a beth y gall y coleg ei wneud i chi. Rydyn ni yma i'ch helpu chi.'

Mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth â phrosiect POP Dyma raglen deithiol wedi ei chynllunio i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ledled Gogledd Orllewin Cymru. Bwriad y prosiect yw gweithio o fewn cymunedau i ddenu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau, boed hwy'n weithgareddau economaidd, gwirfoddol neu'n weithgareddau dysgu. Lluniwyd y prosiect, sy'n bartneriaeth rhwng CAG (GC) Coleg Menai, Coleg Harlech, Coleg Llandrillo a Gyrfa Cymru, i ehangu'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael.

Mae'r rhaglen deithiol POP yn cynnig cymorth i dalu costau gofal plant tra bod eu gofaluwr yn y dosbarth. Gellir cwrrd â chostau gofal amgen i ddibynyddion mewn oed gan y cynllun hefyd.

Am wybodaeth pellach am y cyrsiau a'r ddarpariaeth cysylltwch â 01286 673450.



Canolfan Penygroes. Mae'r siop newydd ym Mhenygroes yn gweithio yn agos gydag Antur Nantlle ac mae'r ganolfan yn awyddus i gynnal cyrsiau Cyfrifiadurol a Llythrennedd Sylfaenol dros yr haf.

Gefeillio Llanberis a Morbegno

Dydd Gwener 23 Gorffennaf 2004
Yn y Mynydd Gwefru
am 12.00 o'r gloch.

adnabod a deall ein gilydd yn well

Yn ystod pumed Ras yr Wyddfa yn 1980 y gwnaed cysylltiad cyntaf gyda dinas Morbegno yng Ngogledd yr Eidal, pan ddaeth criw bychan o redwyr Eidalaidd yma i gystadlu yn y ras.

Ychydig a wyddem bryd hynny y byddai buddugoliaeth Privato Pezzoli yn sail i berthynas mor glôs ac agos rhwng cymunedau Llanberis a Morbegno yn y dyfodol. Ers dechrau'r cysylltiad hwn bu i lu o athletwyr o'r ddwy wlad gystadlu yn Ras Yr Wyddfa a'r Trofeo Vanoni, sydd yn cael ei chynnal yn flynyddol yn Morbegno ym mis Hydref.

Gymaint fu'r llwyddiant o'r cysylltiad arbennig yma mae'r ddwy ras, yn ogystal â chlybiau rhedeg C.S.I Morbegno a chlwb rhedeg Eryri, eisoes wedi gefeillio â'i gilydd. Ymwelodd rhedwyr a'u teuluocdd, yn ogystal, â rhai o gynghorwyr Morbegno a Llanberis yn flynyddol, a datblygwyd cyfeillgarwch agos rhwng aelodau o'r ddwy gymuned. Mae'r cyfeillgarwch a'r cysylltiad rhwng y ddwy gymuned yn un unigryw sy'n ymestyn y tu hwnt i fyd cyffrous rhedeg mynydd.

Ar wahân i gyfnewid dinesig a diwylliant, mae gefeillio yn cynnig cyfleoedd i adeiladu cyfeillgarwch rhwng unigolion a chymunedau, ac i ddysgu oddi wrth brofiadau ein gilydd. Ein bwriad yw cael cyfnewid ar lefel hir dymor, cyfarfod ymwelwyr newydd, creu cyfleon ym myd busnes ac yn arbennig ymysg pobl ifanc y ddwy ardal.

Mae gefeillio yn rhoi cyfle i ddarganfod mwy am fywyd dyddiol trigolion gwledydd eraill Ewrop, gan gyfathrebu a rhannu profiadau yn ogystal â datblygu prosiectau ar y cyd ac o ddiddordeb cyffredinol mewn sawl maes.

Bydd arwyddo cytundeb gefeillio yn Llanberis ar 23 Gorffennaf, yn cyd fynd â dathlu pum mlynedd ar hugain o gystadlu di-dor gan yr Eidalgwyr yn Ras yr Wyddfa. Bydd seremoni gyffelyb yn digwydd yn Morbegno yn ystod penwythnos 24/25 o Hydref 2004.

Boed i'n cyfeillgarwch brofi hir Ocs!

Bangor	Soest, Nordrhein-Westfalia, Yr Almaen
Caernarfon	Landerneau, Llydaw
Dolgellau	Guerande, Loire-Atlantique, Ffrainc
Harlech	Riec-Sur-Belon, Llydaw
Nefyn	Puerto Madryn, Chubut, Yr Ariannin

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Gwladys Jones, 18 Hafod Olau, Deiniolen, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, ac yn arbennig i Dr Alwyn Parry. Diolch am y cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Mair Morris a Nancy Owen, Rhydfadog ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl, sef Jack Owen o Gaernarfon.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL. Dymuna Pwyllgor Cyngor Eglwys Deiniolen a Dinorwig ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r apêl eleni. Diolch arbennig i'r casglyddion fu o gwmpas y ddau bentref. Casglwyd y swm o £760.

CYLCH MEITHRIN. Bu'r plant a'u rheini ar drip i Lanberis gan deithio ar Drên y Llyn ym mis Mehefin a phawb, gobeithio, wedi mwynhau.

Bydd y Cylch Meithrin yn cau am wyliau haf ar ddydd Gwener, 16 Gorffennaf, ac yn ailagor ar ddydd Iau, 2 Medi. Dymunwn yn dda i'r plant fydd yn ein gadael ac yn mynd llawn amser i Ysgol Gwaun Gynfi y tymor nesaf, a diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

CYDYMDEIMLAD. Colled fawr i bentref Deiniolen oedd colli Alun Wyn Evans ar 15 Mai. Bu'n hynod o weithgar yn y gymuned am lawer blwyddyn, gan wneud ei orau dros gyn-chwarelwyr a ddioddefai o effaith llwch y chwarel ar eu hysgyfaint. Bu hefyd yn weithgar dros y clwb pêl-droed lleol, gan annog chwaraewyr ifanc i wneud eu gorau drosto.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i'w weddw, Mrs Laura Evans, i'w blant, Dafydd a Dilys, ac i'r holl deulu.

CYDYMDEIMLWN hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Dilys Pritchard, gynt o Llys Edfrwd, Ffordd Deiniol, a fu farw yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli ar 10 Mehefin. Anfonwn ein cofion at ei mab a'i wraig, Mr a Mrs Norman Pritchard, a'r holl deulu.

LLONGYFARCHIADAU i Elfed Morgan Lewis, Llechwedd, ar

dderbyn yr ail wobwr am yr Unawd Cerdd Dant yn Eisteddfod yr Urdd, Ynys Môn. Rhagorol yn wir.

Llongyfarchiadau hefyd iddo ar ennill Gradd Anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol Cymru Bangor. EGLWYS CRIST. Bore Sul, 6 Mai, cafwyd gwasanaeth arbennig i groesawu y Parchedig Deiniol Morgan, sydd â gofal pump o Eglwys ym Mro'r Eco. Daeth plwyfolion o Nant Peris, Llanberis, Cwm-y-glo a Llanrug yma i Eglwys Crist. Cafwyd cân o groeso gan blant yr Ysgol Sul ynghyd ag eitemau eraill, yna cafwyd lluniaeth ysgafn cyn troi am adref. Diolch i wragedd yr Eglwys am baratoi ac i bawb a fynychodd yr achlysur hapus yma.

Gwasanaethau Gorffennaf ac Awst fydd:

Gorff 4: 5.00pm Gosber, y Parchedig Tegid Roberts

Gorff 11: 8.30am Cymun

Gorff 18: 5.00pm Gosber, Dr Wiliam Munro

Gorff 25: 8.30am Cymun

Awst 1: 5.00pm Gosber, Mr Derek Jones

Awst 8: 8.30am Cymun

Awst 15: 5.00pm Gosber, Dr Wiliam Munro

Awst 22: 8.30am Cymun

Awst 29: 10.00 Cymun yn Eglwys Mihangel Sant, Llanrug

YSGOL GWAUN GYNFI Y Celtiaid, Nant Gwrtheyrn. Cafodd plant Dosbarth 4 y cyfle i fynychu gweithdy Celtaidd yn Nant Gwrtheyrn. Bu Catherine Aran, y storiwraig, yn adrodd stori Pwyll Pendefig Dyfed wrthynt a chafwyd hwyl wrth greu stori eu hunain. Yn y prynhawn buont yn helpu i adeiladu tŷ Celtaidd allan yn yr awyr iach.

Marathon Llundain: Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r achos o noddi Mr Rhys ab Elwyn i redeg Marathon Llundain.

Casglwyd £675.35 hyd yn hyn. Clwb y Ddraig - Gweithgareddau All-Gyrsiol. Athletau yw gweithgaredd y Clwb y tymor yma.

Mae'r clwb yn ymgynnull bob nos Fawrth ar ôl yr ysgol, mwy o wybodaeth i ddilyn.

Gwyliau Haf. Bydd yr ysgol yn cau ar ddydd Gwener, 16 Gorffennaf ac yn ailagor ar ddydd Iau, 2 Medi.

OND DOEDDEN NHW'N DDYDDIAU DA



Ymddangosodd y llun yma o griw o fyfyrwyr Neuadd Breswyl Coleg Prifysgol Aberystwyth yn 1966-7. Y mae pump o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail ymysg y criw glandeg, cyrliog, main! Tybed all eu cyfoedion adnabod Irfon Williams (Dinorwig), Geraint Elis (Nant Peris), Arthur Owen

(Clwt y Bont), Dafydd John Williams (Llanrug) a Myfyr Roberts (Llanberis). Roedd un cyn-ddisgybl arall yno, sef John Richard Roberts (Llanberis), ond roedd yn absennol pan dynnwyd y llun. Cawsom erthygl yn olrhain hanes John Rich yng Nghanaada yn yr Eco yn ddiweddar.



CARPEDI GERAIT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

UN FUNUD FACH

DYRCHAFU CYFIAWNDER

Pa obaith sydd pan fo'n harweinwyr gwleidyddol yn dal dig ac yn amharod i faddau ac yn gwrthod cymodi? Beth ddaw o gymdeithas pan yw ei harweinyddion yn fwriadol anwybyddu barn yr etholwyr wrth amddifadu yr union bobl a etholwyd ganddynt o bob dylanwad a grym? Ceir manau dyrys felly ym mhob cwr o'r byd. Rydym wedi anobeithio wrth weld y fath ymddygiad, ac wedi gweddio am heddwch a chyfiawnder ym mhellafoedd byd.

Tristwch pethau yw nad oes raid cdrych ymhell i weld y fath bethau. Yma yng Nghymru mae'r hyn a ddigwyddodd yng Ngheredigion wedi'r Etholiadau Lleol yn achos gofid a chywilydd mawr. Gêm galed yw gwleidyddiaeth wrth reswm, ac mae'n aml yn gêm anheg. Ond mae'r hyn a ddigwyddodd yng Ngheredigion yn codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â'n trefn wleidyddol, gan nad ocs unrhyw fath o synnwyr mai'r blaid swyaf llwyddiannus yn yr etholiad fydd y blaid leiaf ei dylanwad o fewn y Cyngor. Byddem yn hallt ein beirniadaeth ar y fath drefn mewn gwleidydd 'llai democrataidd' na ni! Ai gormod disgwyl bellach i'r drefn

etholiadol gael ei pharchu yng Nghymru?

Ond nid yr anghyfiawnder gwleidyddol yw'r peth mwyaf digalon am Geredigion ond agwedd y cynghorwyr annibynnol at rai o'u cyd-gynghorwyr. Mae'n nhw'n gwrthod cydwethio am na fedrant faddau i'w gwrthwynebwyr gwleidyddol bethau a ddywedwyd yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Ydi, mae gwleidyddiaeth yn gêm galed, ac yn gêm fudr ar adegau. Ac mewn ymgyrch etholiad, mae pobl yn dweud pethau caled, a phethau brwnt, a hyd yn oed bethau celwyddog. Doedd rhai o'r cynghorwyr annibynnol eu hunain ddim yn ddieuog o daflu baw. Ond yr hyn sy'n ddigalon yw eu haerid na fedrant faddau. Peth hyll yw siarad o'r fath, ac mae'n drist clywed arwcynyddion gwleidyddiaeth leol yn ymagweddu felly. Os llwyddodd gŵr fel Nelson Mandela i gymodi a rhannu llywodraeth â'r rhai a'i carcharodd ef ac a ormesodd ei bobl gyhyd, oni allwn ddisgwyl i gynghorwyr 'faddau' ambell air o feirniadaeth?

Gwae'r genedl na all dyrchafu cyfiawnder a gwae'r bobl na fedrant faddau a chymodi.

JOHN PRITCHARD

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROO-Y-WAEN, PENISARWAUN

Vn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Gyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLWN yn arw â Berwyn Jones, 62 Glanffynnon a'r teulu oll yn eu profedigaeth arw a sydyn pan fu farw tad Berwyn, sef y Cynghorydd Dafydd Parry Jones, Conwy.

PROFEDIGAETH. Dymuna Evan a Helen Parry a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth annisgwyl o golli brawd annwyl, Glyn Meirion Jones, Caerfryn, Llanrug, ac yn ddiweddar o Plas Pen Gwaith, Llanberis.

LLWYDDIANT Y LLEWOD. Mae tîm pêl-droed Llewod dan 8 Llanrug yn dathlu llwyddiant cyntaf y tymor. Draw yn Nyffryn Nantlle ar gae enwog Nantlle Vale, nhw oedd y pencampwyr dan 8 oed yn Nhwarnament Blyneddol Gŵyl Fai 2004.

Roedd wyth o dimau eraill o Fôn ac Arfon yn y gystadleuaeth. Ar ôl diwrnod caled Tîm y Llewod oedd ar dop y gynghrair a nhw aeth ymlaen i gêm derfynol yn erbyn Segontiw. Ar ôl gêm gofiadwy, cafwyd amser ychwnaegol a chiciau cosb ac, mewn diweddrglo gwyd, fe arbedodd Iwan Jones y gic olaf!



RHUN MEIRION WILLIAMS. Llongyfarchiadau i Rhun o Lanrug ar gael ei ddewis yn 'Chwaraewr y Flwyddyn, Clwb Rygbi Caernarfon dan 8 oed, 2004'.

Mae nifer fawr o blant lleol ardal yr Eco yn chwarae yn rheolaidd i dimau Caernarfon. Daliwch ati y flwyddyn nesaf hogiau.

CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch i bawb gyfranodd mor hael tuag at yr achos teilwng yma eleni eto. Y swm a gasglwyd yw £1,370 a chyda chyfraniad o'r Dreth Incwm, mae'r cyfanswm yn £1,505. Diolch o galon i'r casglwyr hefyd ac i'r rhai fu'n cyfrif a bancio'r arian.

Trefnwyd gwasanaeth crefyddol Cymorth Cristnogol eleni gan drigolion Gweriniaeth Dominica a Haiti, a thrist iawn oedd deall fod llifogydd mawr wedi llifo drwy eu cartrefi ddiwedd mis Mai. Maent yn byw mewn tldi enbyd yn barod heb i drychineb fel hyn ddod i'w rhan.

Gobeithio y bydd ein hymdrech ni yn Llanrug yn rhywfaint o help iddynt ailafael yn eu bywydau, ond ni chânt byth eu hanwyliaid yn ôl.

Gobeithio ein bod ni yn sylweddoli mor braf yw hi arnom ni, ddim yn gorfod byw mewn ofn trychinebau na gelynyon.

DIOLCH. Ar ôl dathlu ei phen-blwydd yn 80 fis Mai, dymuna Mrs Mona Mai Griffith ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniodd. Mae'r arian, sef £100, wedi cael ei roi i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Diolch hefyd i Mrs Cerid McKinnon am drefnu'r lluniaeth ac i genod Hafan Elan am helpu.

MERCHED Y WAWR. Ar nos Fawrth, 8 Mehefin, aeth aelodau cangen Llanrug i Benrhos, Caeathro. Estynnodd Rhian groeso cynnes i bawb i'r plasty a phleser mawr oedd cael cymdeithasu mewn ystafelloedd braf. Adroddodd Rhian beth o hanes y plasty, gan gychwyn gyda'r perchennog cyntaf, sef Syr W.H. Preece, y peiriannydd telegraffig enwog.

Gwnaeth y perchennog presennol, Llŷr Roberts, lawer o waith yn adnewyddu'r plasty, gan ei addurno'n chwaethus a sefydlu

busnes gwely a brecwast a chanolfan gynadledau yno. Aeth Rhian a'r aelodau o gwmpas yr ystafelloedd gwely moethus ac roedd golygfeydd gwyd i'w gweld o'r ffenestri sylweddol.

Cydymdeimlodd Meirwen, y Llywydd, ag Ann Ifans ar golli ei brawd, â Helen ar golli ei brawd, ac â Pat ar golli ei thad yng nghyfraith. Cyhoeddodd y canlynol:

y noson gelf a chrefft yn Nhregarth ar 11.6.04; y bore coffi yn Festri Capel Ebeneser, Caernarfon ar 18.6.04; y daith gerdded yn Ninas Dinlle ar nos Wener 18.6.04 a Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005 ar 26.6.04.

Derbyniwyd cerdyn diolch gan Eurgain Haf a fu'n casglu tuag at gancr y fron trwy gerdded nodedig. Diolchwyd i Gwenda am fod yn ysgrifennydd y gangen am y flwyddyn 2003-04 ac i Pat am fod yn drysorydd am yr un cyfnod.

Yna mwynhawyd pryd ardderchog o fwyd. Cyflwynwyd Beryl â thystysgrif am flynyddoedd o wasanaeth gyda'r WRVS yn Ysbyty Gwynedd, ac fel arwydd o werthfawrogiad y gangen o'i gwasanaeth, cyflwynwyd trefniant o flodau mewn basged iddi.

Enillwyd y raffl gan Megan. Cytunodd Menna ac Olwen i ymgymryd â dyletswyddau is-ysgrifennydd y gangen yn 2004-5. Diolchwyd i Heulwen am drefnu'r noson.

* * *

Cynhaliwyd cyfarfod Mai yn y Ganolfan Gymuned ar nos Fawrth, y 11.

Croesawodd Meirwen y llywydd, bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau Helen, Bethanne, Ann Lloyd, Eirianwen a Llinos. Bydd y rhai sy'n is-swyddogion eleni yn dod yn swyddogion yn y flwyddyn 2004/05: Llywydd: Eryl; Ysgrifennydd: Heulwen; Trysorydd: Meryl. Etholwyd Bethanne yn Is-lywydd a Pat yn Is-drysorydd. Etholwyd Julie, Nan ac Ann Ifans fel aelodau newydd o'r Pwyllgor. Bydd y cynrychiolwyr presennol ar yr Is-bwyllgorau yn parhau i gynrychioli'r gangen yn 2004/05, sef Julie ac Ann Lloyd (Celf a Chrefft), Beryl (Anabl); a Phyllis a Myfanwy (Dysgwyr). Bydd Mary yn parhau yn Ohebydd y Wasg ac Olwen yn parhau yn Ddosbarthwr y Wawr.

Llongyfarchwyd y gangen am ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Llyfr Lloffion Rhanbarth Arfon. Diolchwyd i aelodau'r gangen a fu'n cymryd rhan yn y Cwis Hwyl.

Cynhelir taith gerdded yn Ninas Dinlle ar 18.6.04 a gofynnwyd i bawb oedd â diddordeb roi eu henwau i Pat cyn 4 Mehefin. Cynhelir bore coffi gyda'r elw yn mynd tuag at y Deillion yn Festri Capel Ebeneser, Caernarfon ar 18.6.04 a chynhelir noson Gelf a Chrefft yn Nhregarth ar 11.6.04. Bydd Julie yn cymryd enwau'r rhai sy'n bwriadu mynd ar y daith fws i arddangosfa grefftau yn yr NEC, Birmingham ar 13.11.04.

Penderfynwyd cyfrannu tuag at Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005 gyda 1/6 o'r cyfraniad yn cael ei glustnodi i bwyllgor apêl lleol Llanddeiniolen

a'r gweddill i bwyllgor apêl lleol Llanrug. Penderfynwyd hefyd, yn ôl yr arfer, roi cyfraniad i Eisteddfod Bentref Llanrug ac i Eisteddfod Bentref Penisarwaun.

YSGOL GYNRADD LLANRUG



LLONGYFARCHIADAU i Lowri, Anna ac Emma o'r Ysgol Gynradd. Daeth eu gwaith Celf 3D dan 10 oed yn ail drwy Gymru yn Eisteddfod yr Urdd.



LLONGYFARCHIADAU mawr i Math Emyr, Bl 2. Ysgol Llanrug ar ddod yn gyntaf yng Nghystadleuaeth Ysgrifennu Stori dan 8 oed yn Eisteddfod yr Urdd. **LLONGYFARCH.** Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Anti Eira (y gegin) ac Alun ar eu priodas.

GWELLA. Rydym yn falch o weld Anti Bethan, ein cogyddes, yn ôl gyda ni wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. **CHWARAEON.**

Tenis: Cynhaliwyd twrnament tenis Ysgolion Cynradd Gwynedd ar 11 Mehefin yng Nghaernarfon a chymerodd tri thim o'r ysgol ran yn y gystadleuaeth. Cafwyd diwrnod da o gystadlu gyda phob plentyn yn mwynhau ac yn chwarae'n dda iawn. Daeth y tîm ieuengaf yn ail yn eu cystadleuaeth ac un o'r timau hynaf yn drydydd. Da iawn chi.

Rygbi: Ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon y cynhaliwyd cystadleuaeth rygbi Clive James ar 9 Mehefin. Aeth tîm cymysg disgyblion Bl.6 i gynrychioli yr ysgol gan chwarae yn arbennig o dda.

Nofio: Dydd Gwener, 21 Mai, cynhaliwyd Gala Nofio Ysgolion Cynradd yng Nghaernarfon. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 26 o ddisgyblion a bu cystadlu brwd yn y pwll. Daeth llwyddiant i nifer o'r unigolion yn eu rاس.

Mabolgampau'r Urdd. Cynhaliwyd mabolgampau Cylch Arfon yr Urdd ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen, nos lau, 17 Mehefin. Aeth nifer o aelodau Urdd yr ysgol i gystadlu a thrwy eu gwaith caled daeth yr ysgol yn ail yn y cystadlu. Bydd Aled, Elain, Debbie ac Ian yn cynrychioli'r cylch yn y mabolgampau Sir ar gaeau



Llwyddiant y Llewod

Treborth Bangor ar 28 Mehefin. Gwnewch eich gorau eto - da iawn chi.

Credaf i'r ddau barti Dawnsio Gwerin a Chloe, Bl. 3. wneud eu gorau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ynys Môn a bod y profiad, er mor nerfus oeddynt, o gael cystadlu yn y Genedlaethol yn brofiad amhrisiadwy iddynt.

Bydd genethod bach Bl. 2 yn cael y fraint o berfformio yn y Ddawns Flodau yn Seremoni Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cylch yng Nghaernarfon, brynhawn Sadwrn, 26 Mehefin.

BIOAMRYWIAETH. Aeth blynyddoedd 3 a 4 i Blas Tan y Bwlch ar 22 Mehefin i astudio bioamrywiaeth yn Eryri gyda arbenigwyr o Goleg Prifysgol Cymru Bangor.

TRIP CAERDYDD. Bu'r trip i Gaerdydd i ddisgyblion Bl 5 a 6 yn llwyddiant mawr eto eleni. Cawsant ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol ble'r oedd Alun Ffred AC yn aros amdanynt a'u tywys o amgylch yr adeilad. Yna aethant i Stadiwm y Mileniwm. Ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol i wneud gwaith ar 'Drysorau Cudd' ac yna i'r hen gaer Rufeinig yng Nghaerleon. Fel yn y gorffennol maent wedi ymddwyn yn dda ac yn flinedig iawn yn cyrraedd yn ôl i Lanrug yn hwy nos Wener.

YMWELIADAU DIWEDD TYMOR. Daeth yn ddiwedd blwyddyn ysgol eto a'r disgyblion yn cael trip i ddiweddur' flwyddyn. I'r Heulfan yn y Rhyl y bydd disgyblion Bl 3, 4, 5 a 6 yn mynd, gyda phlant Bl 1 a 2 yn cael mwynhau diwrnod yn Sw Bae Colwyn. Bydd plant bach y Dosbarth Meithrin yn croesi I Ynys Môn i ymweld â'r Sw Fôr ym Mrynsiencyn.

Brynhawn dydd Mercher, 7 Gorffennaf, bydd nifer o fôr-ladron yn cerdded ffordd fawr Llanrug ar eu ffordd i gae chwarae Nant y Glyn, ond peidiwch a dychryn, disgyblion y Dosbarth Derbyn fydda nhw, wedi eu gweddnewid gan baent a thalent Anti Carol. Diolch iddi am roi ei hamser i ni.

FFARWELIO A DIOLCH. Bydd criw Blwyddyn 6 yn ffarwelio â gris gyntaf eu haddysg ddiwedd y tymor ac yn troi eu golygon tuag at yr ail ris yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Teimla bob un yn eitha hyderus i fynd gan iddynt gael treulio diwrnod yno a chael blas ar hynny. Dymunant ddiolch i'r Prifathro, y staff a'r disgyblion am y croeso a gawsant ganddynt ar eu diwrnod profiad yn ddiweddar.

Byddwn hefyd yn ffarwelio â Mrs Ffita Williams, sydd wedi bod gyda ni am ddau dymor yng ngofal Bl 1. Diolch iddi am ei gofal a'i chwmni.

Ar ôl treulio deunaw mlynedd gyda ni yn Ysgol Gynradd Llanrug, mae Mr Ieuan Wyn am ymddeol o'i swydd fel athro a throi ei olygon at lonyddu a barddoni. Fo fyddwn yn teimlo colled fawr ar ei ôl, ond dymunwn bob hapusrwydd iddo ar ei ymddeoliad. Byddwn yn falch iawn o'i weld yn troi i mewn atom i'r ysgol am sgwrs pan fydd yn y gyffiniau.

GWYLIAU. Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r haf brynhawn Gwener, 10 Gorffennaf. Gobeithio y bydd y tywydd yn ffafriol ac y byddwch yn mwynhau bob dydd. Cofiwch gymryd gofal gyda beiciau ar y

ffordd. Gwelwn chi yn ôl yn yr ysgol ar 2 Medi.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyd Clwb 100 mis Mehefin oedd Mrs M. Roberts, Tai Minffordd: £20; K. Owen, 56 Bro Rhyddallt: 7; Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan: £5. Cofiwch os am ymuno cysylltwch â Mr R.O. Thomas, 54 Nant y Glyn.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Rebecca Owen, Bryn Moelyn ar ddatlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol:

Dilwyn a Nerys, Stad Minffordd ar enedigaeth Ioan Llŷr, brawd bach i Huw Alun.

i Steve a Lois, 22 Glanffynnon ar enedigaeth mab, Cai, brawd bach i Mathew.

GRADDIO. Llongyfarchiadau i Tracey Jacques, Glanffynnon wydd wedi graddio mewn Therapi Galwedigaethol yng Nghaerdydd. Mae wedi dechrau gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.

Hefyd i Bethan Vaughan, Bethel, sydd wedi graddio mewn Meddygaeth yng Nghaerdydd a bydd yn cychwyn yn fuan yn Ysbyty Singleton.

Llongyfarchiadau mawr gan ei thaid, Mr Iorwerth Williams, 1 Glanffynnon.

CAPEL Y RHOS

**Gwasanaeth
Agor y Capel
ar ôl yr Adnewyddu**

**Nos Lun, 5 Gorffennaf
am 6.30 o'r gloch**

**Lluniaeth ysgafn ar ôl
y gwasanaeth.**

Croeso cynnes i bawb

Capel y Rhos

Fore Sul, 20 Mehefin, cynhaliwyd y gwasanaeth cyntaf yng Nghapel y Rhos ers mis Gorffennaf 2003, dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Dafydd Hughes. Tra roedd y capel yn cael ei atgyweirio ac ystafelloedd yn cael eu hychwanegu at yr adeilad, bu'r aelodau yn cynnal eu gwasanaethau yng Nghapel Hermon, drwy garedigrwydd yr eglwys honno. Ond erbyn hyn, mae'r gwaith wedi ei orffen a phawb yn gwerthfawrogi'r adeilad ar ei newydd wedd. Mae croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd i'r gwasanaethau ac i'r Ysgol Sul ar fore Sul am 10 o'r gloch. Cyfle efallai i rai aildechrau dod i addoli yng Nghapel y Rhos.

Trefnir Gwasanaeth Arbennig i agor y capel yn swyddogol ar ôl yr adnewyddu am 6.30 o'r gloch, nos Lun, 5 Gorffennaf, pan groesewir aelodau eglwys lleol, swyddogion yr Henaduriaeth a rhai â chysylltiadau â'r eglwys yn y gorffennol. Bydd lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth, a chroeso cynnes iawn i bawb.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. I ddiwedd ein cyfarfodydd am y tymor, cafwyd noson Moes a Phryn yn yr ysgol gymuned nos Lun, 7 Mehefin. Croesawodd Mrs Dorothy Jones pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Trafodwyd rhai materion. Bydd y pnawn Te/Mefus yn cael ei gynnal yn Llanrug ar 24 Gorffennaf. Bydd gwasanaeth y ddeoniaeth yn cael ei gynnal yn yr Eglwys Gadeiriol am ddau o'r gloch pnawn lau 23 Medi. Bydd cyfarfod y ddeoniaeth yn cael ei gynnal ym Mhorthmadog dydd Mercher 6 Hydref.

Cafodd pawb amser i brynu oddi ar y stondinau. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs. Menna Roberts a Mrs. Kathleen Jones. Rhoddwyd y raffl gan Kath ac fe'i henillwyd gan Dorothy. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs. Gwyneth Roberts. Terfynwyd y noson gyda gweddi.

YSGOL CWM Y GLO

Mae'n braf cael croesawu bachgen bach newydd i'r Dosbarth Meithrin. Mae Owen wedi setlo'n dda gyda'i ffrindiau bach ac mae ei chwaer fach Rhiannon wrth ei bodd yn dod i'w nôl o bob dydd.

Croeso atom hefyd i Mrs. Lesley Morgan o Fethel. Hi yw ein gofalwraig newydd ac mae hi wedi dod yn un ohonom yn syth. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Cafwyd noson Rasmus Ceffylau arbennig o hwyliog wedi ei threfnu gan y Gymdeithas Rhieni /Athrawon yng Ngwesty y Padarn Lake yn Llanberis. Gwnaed elw o dros £400 i'r gronfa. Roedd rhai o'r bobl wedi betio'n ddoeth a nifer wedi gwisgo'n grand! Aeth y wobr am yr het Ascot orau i Mrs. Gwenifer Roberts. Diolch i bawb am y trefnu a'r cefnogi.

Enillwyd Clwb yr ysgol am fis Ebrill oedd - Mrs. Lesley Wilson, Glan y Gors, Dinorwig; Mr. Keith Williams, Bryn a Miss Carys Williams, 7 New Street, y ddau o Gwm y Glo. Yna aeth gwobrau rnis Mai i Mrs. Lis Hughes, Dolafon; Mrs Mair Hughes, Glasgoed a Miss Myfanwy Roberts, Bod Gwilym.

Mae Campau'r Ddraig bellach wedi gorffen am eleni. Cafwyd athletau y tymor hwn. Diolch i Mrs. Jennifer Roberts, Mrs. Nia Oliver a Mrs. Simone Simpson am baratoi a gweithio gyda'r plant.

I ddathlu diwedd cyfarfodydd yr Urdd cafwyd Picnic yn y Parc. Mwynhawyd gemau o bob math ar ôl gorffen y bwyd blasus! Aeth deg o

blant Bl.5 a 6 i dreulio penwythnos yng ngwersyll Glanllyn. Unwaith eto cafodd pawb amser bendigedig yn y tywydd braf. Diolch eto i Mrs. Oliver a Mrs. Jen Roberts am ofalu amdanynt.

Cynhaliwyd mabolgampau'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen ar Fehefin 17eg. Rhaid diolch eto i bawb am gynrychioli'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i Gethin Wynn Jones a enillodd y Naid Hir dan 12 oed a dod yn drydydd am redeg. Pob lwc yn y Sir.

Treuliodd plant Bl.3 a 4 ddiwrnod cyfan yn gwneud gwaith maes ar lan y môr yn Ninas Dinlle. Roedd hwn yn rhan o'u gwaith ar y thema Llongau a Morwyr ac roeddynt wedi mwynhau y profiad yn fawr.

Aeth nifer o blant i gynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau mawr i'r rhai ddaeth yn fuddugol a dod a nifer o bwyntiau i'r ysgol. Diolch i bawb am gymryd rhan.

Trefnwyd Ffair Haf a Sêl Cist Car lwyddiannus iawn gan Gymdeithas Rhieni/Athrawon yr ysgol. Diolch i bawb fu'n trefnu ac a fu'n cefnogi ar y noson. Diolch am roddion o bob math anfonwyd i ni. Gwnaed elw teilwng iawn o £600.

Mae'n mynd i fod yn gyfnod prysur iawn rhwng nawr a diwedd y tymor. Bydd dwy noson rieni a mabolgampau'r ysgol.

Yna byddwn i gyd yn cael diwrnod yn Sw Bae Colwyn. Bydd noson o gyfeiriannu yng nghoedwig Dinorwig ar Orffennaf yr 8fed. Croeso i unrhyw un ymuno gyda ni.

Bydd gwasanaeth yng ngofal plant Bl.6 i gloi y tymor lle byddwn yn cyflwyno tystysgrifau ac yna disgo gyda'r nos wedi ei drefnu gan eu rhieni.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nellie Mai Owen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, ac yn arbennig i staff Cartref Plas Pen Gwaith am y cardiau a'r anrhegion a phob caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Wyn Rowlands, Glanrafon, ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen ac ar ôl dod adref.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Einir Gwyn a'r teulu, Gwêl Elidir, yn ei phrofedigaeth o golli ei nain.

ARHOLIADAU. Pob dymuniad da i blant y pentref sydd yn eistedd arholiadau y tymor hwn.

Cronfa Codi Cwt Newydd i Band Llanrug

Mae Band Llanrug wedi agor cronfa i godi cwt band newydd. Mae'r un presennol ar y safle ers 1957 - ond nawr mae'r seindorf yn gobeithio adeiladu un newydd.

Eisioes mae sawl cais am grant wedi ei gwblhau gan y pwyllgor ond mae'n rhaid i'r band gyfrannu 25 y cant tuag at gost yr adeilad newydd. Band Llanrug yw un o fandiau hynaf Cymru a byddant yn dyrchafu i adran gyntaf Bandiau Pres Prydain Fawr yn 2005. Erbyn hyn, mae dros wythdeg o aelodau o bob oedran yn y band ieuenctid a'r band hyn. Os hoffech gyfrannu at yr adeilad newydd mewn unrhyw ffordd, cysylltwch gyda Berwyn Owen, Fron Heulog, Dwyrain Twthill, Caernarfon, LL55 1PF 01286 678161. Bydd y band yn

ddiolchgar iawn o'r cymorth.

Mae'n gyfnod prysur iawn i'r seindorf - gyda'r band ieuenctid yn chwarae yn Sioe Amaethyddol Caernarfon dydd Sadwrn, Gorffennaf 3ydd, am 10.30 y bore. Mae hyn yn dilyn cyngerdd llwyddiannus gyda Ysgol Glanaethwy yng Nghapel Salem Caernarfon mis diwcthaf.

Hefyd, bydd cyfle i glywed y band mawr yn cystadlu yng Ngŵyl Bandiau Pres y Rhyl ar Orffennaf 4ydd dan arweiniad John Maines, pan fyddant yn ceisio gwella ar yr ail wobr a enillwyd llynedd.

Bydd cyfle arall i glywed y band ar Ddydd Sul 18fed o Orffennaf yn Oriel Glyn y Weddw, Llanbedrog, am 3 o'r gloch pan fyddant yn cymryd rhan yn agoriad ffenestri lliwgar yr Oriel i'r cyhoedd.

Ysgol Brynrefail

Athletau Ysgol Brynrefail

Bu y tymor athletau eto eleni yn un llwyddiannus, gyda nifer o ddisgyblion yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Unigol Arfon a Rhanbarth Eryri. Yn wir bydd pump o'r disgyblion, ar sail eu llwyddiannau, yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Cymru yn Aberhonddu ar 3 Gorffennaf. Y pump yw Joseph Simpson (picell), Robyn Sweeney Smith (pwysau), Ceris Alaw (naid â pholyn), Ifan Jams (clwydi) a Carol Griffiths (1500m).

Fel timau blwyddyn cafwyd cryn lwyddiant ym Mhencampwriaeth Arfon. Roedd genethod bl.7 a bechgyn bl.10 yn gyntaf, a bechgyn bl.7 a bl.8 yn ail yn eu hoedrannau.

Bu timau bechgyn bl.8 a bl.10 yng Nghystadleuaeth Eryri, gyda'r

tîm iau yn 5ed a bl.10 yn 3ydd. Gresyn nad ydynt yn mynd ymlaen i Aberhonddu gan fod tîm o'r ysgol wedi cynrychioli Eryri dros y pum mlynedd diwethaf.

Cynahliwyd mabolgampau'r ysgol eto eleni ac ar derfyn y cystadlu y marciau tai terfynol oedd Gwyrfaï 951, Eryri 787, Elidir 686 ac Eilian 682. Dyfarnwyd y gwobrau blwyddyn i:

bl.7: Ashley McQuigan (Elidir) a Llion Jones (Gwyrfaï);

bl.8: Amy Owen (Elidir) a Gethin Phillips (Eilian);

bl.9: Katy Williams (Gwyrfaï) a Dewi Foulkes (Gwyrfaï);

bl.10: Sarah Woodcock (Gwyrfaï) a Dylan Eddy (Elidir);

Victrix Ludorum - Sarah Woodcock;

Victor Ludorum - Gethin Phillips a Dewi Foulkes.



John Foulkes yn derbyn ei gofnod gan Gadeirydd y Llywodraethwyr, Mrs Ann Pritchard Jones.



Grŵp o blant yn gwisgo sbectol, heb anghofio Gruffudd ac Ifan, wrth gwrs.



Tîm Pêl-droed dan 16 Ysgol Brynrefail a chwaraeodd yn rownd derfynol Cwpan Cymru.

Ar Agor ar gyfer
Te prynhau
a Byrbrydau
Yn Ddyddiol

11 y.b - 4 y.f



Penrhos

Caeathro

(01286) 676667

CRONFA COFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa Uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen a stamp gyda chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes

Tan y Clogwyn

Llanberis

Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871 562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd crbyn Awst 31ain, 2004.

Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870840**

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?

Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.


Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CROESAIR GORFFENNAF



Gwahanol fathau o 1 ar draws ydi'r enwau sydd heb gliwiau iddynt - sylwch ar y gair enwau! I ddweud y gwir mae hwn yn llawn o enwau!

Ar draws:

4. Hanesgerdd megis Odyssey Homer (4)
7. Dihiryn yn bwyta eog wedi ei herwheila (5)
11. Mae Alaw a Dewi yn Ysbyty Gwynedd (7)
12. Cyfer Caer wedi ei distrywio (4)
16. Dognau (8)
17. Priodoleddau dynol (8)
19. Tudalennau i gofnodi arnynt (7)
22. heb fod yn bell (4)
28. Dyn y cert? (3)
29. Y gwagle uwchlaw'r ddaear (6)
30. Y ferch sy'n cyfnewid llythrennau â Mari (4)
32. Y gŵr a gollodd y ras? (4)
33. Y weithred o dynnu bwa (7)
39. Yn hynod gostus (8)
41. Y Cesar a drodd at ei ffidil tra'r oedd Rhufain yn llosgi (4)
42. Y gŵr sy'n gwneud argraff? (4)
46. 34 i lawr oedd y carwr yma (5)
47. Actores enwog iawn fu'n gweithio yn yr ardal yn weddol ddiweddar (4)
48. Cerbydau a dynnir ar reilffordd (6)

I Lawr:

2. Prif swyddog y sir (5)
3. Lle saff i gadw pres rhag (7)
5. ... haint? (3)
6. Rhywbeth wedi ei wau (3)
8. Anifeiliaid digynffon tebyg i'r mwnci (5)
9. Tal am deilyngdod neu hacddiant (5)

10. Boncath yn cael elw o aer y Sais! (6)
15. Harriet Beecher Stowe 'sgwennodd am gaban y gŵr yma (3)
18. Y ferch yma ddaeth gyntaf (3)
20. Ogla drwg! (5)
21. Ar lafar yn y lle hwnnw (5)
23. Merch Brenin Lloegr ddaeth yn wraig i Llywelyn Fawr (5)
25. Hec fod yn gynnes (5)
26. Y wraig o Ffynngroyw... (3)
27. ... a'r gŵr o Wrecsam (3)
28. Yr un sy'n chwarae o flaen y cefnwyr (7)
31. 'Roedd hwn hyn yn oed yn gynt na 18 i lawr (3)
33. Galarus (6)
34. Cenedl 41 a 46 ar draws (7)
35. Dadelfennu (7)
36. Dyn o Fethesda'n wreiddiol, ond mae'n byw yn y Cwm ers blynnyddoedd (3)
37. Nid aderyn, ond mae'r gŵr hwn yn canu'n uchel (5)
38. A'i hwn sy'n eich dychryn yn y bora? (5)
40. Ffrwyth neu goeden normal annormal sy'n colli diwedd y tymor (5)
43. Rhan isaf y talcen (3)
44. Cornel y cwrwgl? (3)

Derbynias atebion i groesair mis Mehefin gan Ceinwen Williams ac Olwen Jones, Bethel; Eluned Jones a D.B. Williams, Trefor; Nan Owen, Mervyn Lennon, Aylwyn Hughes ac Olwen Owen, Llanberis; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Huw Tegid Roberts, Ceridwen Williams ac Eirian Roberts, Llanrug; Jennie Williams, Clynnog; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Megan Morris,

Dinorwig; N.Hughes, Cwm y glo; Diane Jones, Clwt-y-Bont; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gwen Griffith, Deiniolen; Nansi Davies, Rhuthun; H.O.Hughes, Pwllheli; Gareth Oliver, Tregarth a Pat Owen, Caerfyrddin.

Enillyd y mis ydi Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, LL53 6YP. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Gorffennaf, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 16 Awst 2004.

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR

Enillydd Croesair 'Diwrnod y Llyfr', a drefnwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru i Bapurau Bro oedd John Arfon Jones, Heol y Hogledd, Hen dy gwyn ar daf, sy'n ennill £30. Y Papur Bro wnaeth ysgogi'r nifer uchaf o ymatebion oedd 'Lleu', sy'n derbyn sic o £150.



RHODDION

£10: Mona Mai Griffith, Hafan Elan, Llanrug; Di-enw, Deiniolen; Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones, Rhandir, Brynrefail (Er cof am y ddiweddar Mrs Buddug Davies, Wrecsam) Mr John Davies, Tyddyn Eilian, Llanberis; J. Jones, 7 Bryn Moelyn, Llanrug er cof am Ceridwen Owen, 4 Trefor Terrace, Tan-y-coed.

£5: Mrs Nellie Owen, Plas Pen Gwaith, Llanberis; Wyn Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-Glo; Gwladys Jones, 18 Hafod Olau, Deiniolen; Mrs Elen Williams, 2 Bryn Tirion, Penisarwaun; Y Cyngorydd Trefor Edwards, Llanberis.

£2: Daniel Orritt, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis.



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:

- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626

neu 01341 422575

ymholiadau@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851
Rhif Cwmni 3420271



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286 672076

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

CHWARAEON

ATGOFION DYDDIAU YSGOL

Yn dilyn yr erthygl 5-5-5 ar y dudalen chwaraeon rhifyn Ebrill yn cyfeirio at Cledwyn, Hywyn ac Eifion Jones fel tri rhif 5 i glwb pêl-droed Llanrug, daeth ymateb gan Ifan Williams, o Rosmeirch erbyn hyn, ond gynt o Frynrefail. Diolch am yr ymateb ac yn enwedig y cyfle i gymharu 'chwaraeon' ysgol yn y 30'au o'u cymharu â heddiw.

Roedd yr erthygl yn fy atgoffa mai fel gôl-geidwad addawol iawn y dechreuodd Cledwyn ei yrfa yn hen Ysgol Sir Brynrefail yn y 30'au. Athro Daearyddiaeth a Chwaraeon yr Ysgol ar y pryd oedd Glyn Powell Jones. Yn enedigol o un o gymoedd y de-ddwyrain ymddengys ei fod wedi dod yn agos i ennill cap amatur Cymru. Tra ar staff yr ysgol bu'n chwarae i dim Caernarfon. Cyd-aelod o'r tîm oedd John Glyn o Lanberis, a gafodd ei ladd yn ddiweddarach ar gyrch bomio dros yr Almacn.

Fe drefnodd Powell (ei llysenw) dîm yn cynnwys chwaraewyr gorau Brynrefail a Chacnarfon i chwarae yn erbyn tîm ysgolion cylch Caerdydd. Cafodd pump o Frynrefail eu dewis - Wil Pierce Rowlands a Wilbert Davies o Lanberis, Huw David Jones o Ddeiniolen, ac Elfed Henry Jones a Cledwyn o Lanrug yn y gôl. Yn amlwg, roedd y pump yn arwyr ymysg cyfoedion. Rhaid cofio fod Caerdydd yn y 30a'u bron tu draw i'r lleud i blant y fro! Yn anffodus, nid wyf yn cofio'r sgôr!

Ta wachh, yn fuan wedyn penderfynodd Cledwyn fynd i 'chwarae allan'. Doedd y 'boss', Mr. E. Thomas byth yn cyfeirio at arbediadau y gôl-geidwad yn ei adroddiad ar y gemau bore Sadwrn yn ystod gwasanaeth fore Llun. Y rhai oedd wedi rhwydo gâi y clod! Does dim byd yn newid.

Cymerwyd lle Cledwyn rhwng y pyst gan Gwilym Eric o Ddeiniolen, a ddaeth, yn hwyrach, yn ddirprwy bennacth Ysgol Syr Hugh. Criced oedd foric Gwilym Eric. Roedd yn fowliwr peryglus o gyflym. Roedd gan dy Elidir ddau fowliwr cyflym, Gwilym Eric ac Ifan Aled o Lanrug. Doedd gan Eryri, Eilian na Gwyrfa'i obaith mul yn y cyfnod hwnnw o gipio y bencampwriaeth griced. Yr athro a ymddiddorai yng nghriced oedd Mr. Iwan James. Un arall o'r de a ddaeth, maes o law, yn brifathro. Roedd dwy stori ar led yn yr ysgol amdano, ac ci fod yn berthyn i Tommy Farr, ac ei fod wedi cynhyrchioli tîm criced Morgannwg. Troelliwr llaw chwath ydocdd. Byddem ni blant Brynrefail

oedd yn yr ysgol yn cael ein 'Sianghaio' i helpu i ddyfrio a rowlio y llain griced ar gae Bryn Derw, sef cac yr ysgol. Dyna fyddai ein gorchwyl ar nosweithiau Iau a Gwener o flaen y gêm bwysig ar y pawns Sadwrn. Roedd holl anghenion maes criced i'w gael yno - y llain wedi ei farcio mewn gwyngalch, y 'popping crease and all', a'r un modd y ffin.

Roedd hyd yn oed bafiliwn yn mesur deg troedfedd wrth wyth wrth chwech. Parchus goffadwriaeth ohonno! Roedd yno gadair, bwrdd a ffenestr i'r sgorwyr. Yno y cedwid y teclyn gwyngalchu a'r rowler mawr. Roedd yno set o rifau i ddynodi y sgôr, a sawl wiced oedd wedi syrthio - bron cystal â Lords!

Trefnodd Mr. James daith i'r de i wyllo tîm anhygoel Awstalia y 50a'u. Yn y modur ar y ffordd i lawr cofiaf iddo ddweud mai Iorwerth Bowyer o Ddeiniolen oedd y cricedwr naturiol gorau iddo gofio yn yr ysgol. Roedd Iorwerth yn fab i weinidog capel Eban.

Cyn i mi fynd i'r Ysgol, rwy'n cofio dau chwaraewr dawnus arall. Un oedd Gwilym Francis Hughes o Lanrug. Gallai fatio am gyfnodau hir, ond oherwydd afiechyd roedd rhaid iddo cael gwasanaeth 'rhedwr'. Y llall oedd y dramodydd Hugh Lloyd Edwards o Benisarwaen. Roedd Hugh â'r ddawn i slegio'r bell yn bell dros y ffin.

Dyddiau hapus o edrych yn ol, ond yn anffodus ni ddaw 'ddoc yn ôl' i'r un ohonom.'

* * *

Diolch i Ifan Williams am erthygl hynod ddiddorol. Sawl cofiant cyffelyb sydd 'allan acw' tybed?

Gyda llaw, mor wir yw'r sylw fod traddodiad chwaraeon ysgol yn aml yn adlewyrchu diddordeb neu ddiffyg diddordeb y prifathro. Hefyd, beth yw hanes cae Bryn Derw erbyn hyn, a'i lain criced 'dan yr wyneb'? A gollwyd cyfle i scfydlu tîm yn yr ardal, gan fod y cyfleusterau yno?

DRAENOG

Rhyfedd mae fel cyfaniad o haul, paill a phetrol yn effeithio ar feddwl un dyn o (G)wynedd! Nid oedd posib gweld gaei BERAN un bore dydd Sul - gymaint y mwg gwyn wedi i un gwyrrwr/torrwr gwair lenwi tanc ci gar gyda'r tanwydd anghywir! Ond beryg iddo ddygu gwers! Petrol yn y strimar a diesel yn y car... ynteu diesel yn y strimar a phetrol yn y car?

TLWS YR ECO

Fel y byddwch yn derbyn y rhifyn yma, byddwn wedi chwysu ein ffordd drwy ddeuparth rhan y gystadleuaeth, sef y gemau pêl-rwyd a'r bêl-droed i oedrannau dan 9 ac 11. Eleni ar gaeau pêl-droed Nant y Glyn a Bethel y chwaraewyd y gemau pêl-droed. Diolch i'r clybiau am eu cydweithrediad parod. Cofiwch fod un noson

fawr ar ôl - y gystadleuaeth bêl-droed dan 7. Daeth 8 tîm ymlaen yn yr oedran hwnnw, a gynhelir ar Orffennaf 12 ar faes Nant y Glyn. Bydd cwmni teledu yn ffilmio y noson ym Methel ar gyfer cyfres newydd yn ymwneud â sgiliau pêl-droed.

Fe geir adroddiad llawn - a lluniau - yn y rhifyn nesaf.

DIWEDD CYFNOD



Dymchwel Yr Hen Ystafelloedd Newid. Digon trist oedd y gwaith o ddymchwel yr hen ystafelloedd newid yn Eithin Duon yn ddiweddar. Roedd yr adeilad pren wedi gwasanaethu'r clwb am dros dri deg o flynyddocdd, ond roedd ei gyflwr bellach wedi diriwio a'r costau cyson o'i gynnal a'i gadw yn faich ar goffrau'r clwb. Yn ogystal roedd icchyd a diogelwch yn elfen bwysig iawn ym mhenderfyniad y Pwyllgor

i'w ddymchwel yn ogystal â'i olwg i'r llygaid yn y blynyddoedd diweddar.

Yn nhymor 1969-1970 y cafodd George W. Lovatt y cyfle i brynu'r adeilad pren yma yn Mhorthmadog. Aeth criw o bwyllgor y clwb yno i dynnu'r cwt i lawr yn ddarnau ac yna ei gludo yr holl ffordd i Eithin Duon. Yna ail-adeiladwyd y cwt a'i addasu'n dair ystafell newid i'r chwaraewyr a'r dyfarnwr.

BRO'R ECO - BRO'R TARW!

Cafodd tîm dartiau marchod Bull, Ddeiniolen sylw cenedlaethol yn ddiweddar, ond tro eu timau dynion oedd hi yn noson wobrwyo Cynghrair Dartiau Caernarfon a'r Cylch. Yn wir, bu'n noson lwyddiannus i'r fro gyfan.

Da o beth fod hogia'r Bull wedi dod yno mewn bws mini, gan fod torreth o dlysau i'w cludo yn ôl i'r 'topia'.

Yng Nghynghrair y Brif Adran y Bull oedd yn ail, ond hwy oedd pencampwyr cynghrair y parau. Daeth tlysau i'w tîm yn yr ail adran hefyd. Yn y gystadleuaeth i barau yn cynhyrchioli y timau yn yr adran dacth y chwaraewyr ifanc addawol, Gavin Roberts a Darren Bingham, yn ail. Mae gan y tîm yma nifer o chwaraewyr icuanc dawnus. Llygaid ifanc yn amlwg! Yng nghynghrair dyblau yr ail adran gorffennodd y Bull yn gyfartal ar bwyntiau â thîm Halfway,

Talysarn. Yn anffodus, i Ddyffryn Nantlle yr aeth y tlws, ar wahaniaeth nifer o gemau a enillwyd drwy'r tymor. Da iawn y Bull - a Dafydd Twins yno'n 'ddistaw' yn eu canol!

Padarn Lake oedd yn cario baner Llanberis. Daeth llwyddiant i'r tîm yn y ddwy gwpan y cystadlir amdanynt ymysg holl dimau dwy adran y gynghrair. Enillwyd cwpan Bob Jones yn y dull 'o gwmpas y bwrdd', a chwpan Burtonwood yn y dull 301.

I goroni'r tymor rhannwyd y tlws am berfformwyr gorau y brif adran rhwng dau o'u chwaraewyr sef Michael John Williams a Terry Saynor. Dim ond dwy gêm yn unig a gollodd y ddau trwy'r tymor.

I ganol y dyffryn daeth tlws i'r Frican, Cwm y Glo, a hwythau yn ôl yn y brif adran. Cipiwyd Cwpan Wilkes fel pencampwyr y brif adran yn y dull 501.